


Materion i'w hystyried ar gyfer
yr Ymgeisydd am Ardal Cadwraeth
Arbennig Forol Sir Benfro
Drafft ymgynghorol



Grŵp Awdurdodau
Perthnasol yACA
Forol Sir Benfro




Paratowyd y ddogfen hon gan Grŵp Awdurdodau Perthnasol yr Ymgeisydd am Ardal Forol Sir Benfro. Hydref 2002
 Drafft ar gyfer ymgynghori



Argraffwyd ar bapur o ffynonellau cynaliadwy
 Dylunio ac argraffu: CIT Brace Harvatt, Hwlfordd
 Ffotograffau: Gwarchodfa Natur Forol Ynys Sgomer,
 Rohan Holt, Mark Burton, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

Cyflwyniad i'r ymgeisydd am Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro:

YMGEISYDD AM ARDAL CADWRAETH ARBENNIG FORAL SIR BENFRO



Mae'r ymgeisyddiaeth am Ardal Cadwraeth Arbennig forol yn gdnabyddiaeth o bwysigrwydd Ewropeaidd y bywyd morol cyfoethog o amgylch arfordir ac ynsoedd Sir Benfro ac o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Cynigiwyd Safle Morol Sir Benfro gyntaf ym 1997 (o dan yr enw Ynsoedd Sir Benfro ar y pryd) oherwydd ei greigresi, ei aberoedd, ei gilfachau bas a'i faeau, ac oherwydd ei boblogaeth o forloi. Yn 2000 estynnwyd y ffin arfaethedig ac ychwanegwyd rhagor o gynefinoedd a rhywogaethau ('nodweddion' cadwraeth) at y rhestr. Cynigiwyd rhai addasiadau hefyd yn 2002. Ystyrir yr yACA yn un o'r ardaloedd gorau yn y DU ar gyfer:

- Creigresi
- Cilfachau a baeau eang a bas
- Aberoedd
- Morloi llwydion

ac yn un sy'n cynnal presenoldeb sylweddol o:

- Lagwnau arfordirol
- Gwastadeddau o laid a thywod nad yw'r môr yn eu gorchuddio ar lanw isel
- Dolydd heli lwerydd
- Banciau tywod a orchuddir yn ysgafn ac yn gyson gan ddŵr y môr
- Ogofâu morol tanddwr neu rannol danddwr
- Gwangod a herlynod (pysgod mudol)
- Llysywod pendwll a Llysywod pendwll yr afon (pysgod mudol)
- Dyfrgwn
- Tafolen y traeth (planhigyn arforol)

Gellir cael gwybodaeth bellach am yACA Forol Sir Benfro ar y wefan www.pembrokeshiremarinesac.org.uk neu trwy gysylltu â'r Swyddog ACA. (gweler y wybodaeth gyswllt ar dudalen 3).

Cyflwyniad i'r ddogfen hon:

Mae yACA Forol Sir Benfro yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau morol o bwysigrwydd Ewropeaidd y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith eu diogelu a'u cynnal ar gyfer y dyfodol. Rhaid rheoli gweithgareddau dynol o fewn y safle, fel nad ydynt yn andwyo'r cynefinoedd a'r rhywogaethau morol y dewiswyd y safle o'u herwydd.

Mae llawer o'r gweithgareddau yn rhai sy'n annhebygol o effeithio ar y nodweddion; ond gallai eraill effeithio arnynt. Mae'r gweithgareddau neu'r pynciau a ddisgrifir yn y ddogfen hon wedi eu nodi fel rhai sydd o bwys *posibl* i gadwraeth nodweddion yACA Sir Benfro, naill ai ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Nodwyd hwy gan y Grŵp Awdurdodau Perthnasol ar gyfer y safle, a chan y budd-ddeiliaid sydd â diddordeb.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol nac yn ddiffiniol; gallai rhai materion fod wedi osgoi sylw, a materion ychwanegol sy'n galw am ystyriaeth godi yn y dyfodol. Hwyrach hefyd y bydd gwybodaeth bellach yn dangos nad yw rhai, neu hyd yn oed llawer, o'r materion a restrir yma yn debygol o greu risgiau arwyddocaol i'r nodweddion.

Mae'n bwysig pwysleisio, er gwaethaf yr holl faterion a godir yma ynglŷn â'r safle, bod ansawdd cyffredinol y safle yn parhau'n dda. Mae'r amgylchedd yn bwysig iawn i Sir Benfro, ac felly hefyd presenoldeb un o borthladdoedd mwyaf y DU, purfeydd olew o bwysigrwydd Ewropeaidd, yn ogystal ag un o'r prif ddiwydiannau twristaidd. Mae'r yACA hefyd yn cydfodoli â'r unig Barc Cenedlaethol arfordirol yn y DU, ac y mae nifer o aneddiadau mawr ar ei glannau, gyda'u busnesau cysylltiedig, eu cartrefi a'u gofynion adloniannol. Mae'r 'weledigaeth' ar gyfer yACA Forol Sir Benfro yn rhagweld amgylchedd o ansawdd uchel (lle mae nodweddion y safle mewn cystal cyflwr neu well na phan ddewiswyd y safle) a lle mae defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd yn rhan annatod o'r economeg gymdeithasol leol.

Trwy ddarllen a chynnig sylwadau ar y ddogfen hon, byddwch chi, a chyrrff ac unigolion eraill sydd â diddordeb, yn cyfrannu'n ymarferol at reoli'r safle yn y dyfodol. Mae nodi pa faterion sy'n gofyn am weithredu gan y rheolwyr, a'r gweithredu dilynol i fynd i'r afael â'r materion hynny, yn gamau sylfaenol yn y gwaith o ddatblygu rheolaeth y safle.



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - *Drafft ymgynghorol*

Fformat y ddogfen hon: Rhestrir y gweithgareddau / pynciau, nid mewn unrhyw drefn blaenoriaeth, o dan chwe phennawd:

- Defnyddio Adnoddau Byw
- Defnyddio Adnoddau Anfyw
- Gwaredu Gwastraff
- Gweithgarwch Perthynol i Longau / badau
- Gweithgarwch nad yw'n Berthynol i Longau / badau
- Cyffredinol

Enwir pob gweithgaredd neu bwnc, diffinnir ef pan fo angen, a disgrifir ei statws.

Rhoddir esboniad byr o'r ystyriaethau - sef y risg neu'r posibilrwydd o risg a achosir - sy'n berthnasol i nodweddion yr yACA (bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn darparu manylion pellach ar effeithiau gwirioneddol a phosibl gweithgareddau ar y bywyd gwyllt morol).

Rhestrir yr awdurdodau, cyrff y llywodraeth, a'r asiantaethau sydd â'r cyfrifoldeb statudol am reolaeth pob un o'r materion a restrir; mae'r rhai sydd â'r prif gyfrifoldeb yn ymddangos mewn print trwm, ac eraill sydd â chysylltiad eilradd, neu gysylltiad sy'n gyfyngedig yn ddaearyddol, mewn teip cyffredin. Esbonir y trefniadau rheoli, a nodir yr opsiynau posibl ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Dyna'n union yw'r 'opsiynau rheoli yn y dyfodol' - *opsiynau*. Mae'n debygol y gweithredir rhai ohonynt rywdro, ar ôl llawer o drafod ac ymgynghori, gan reolwyr y safle. Cynhwysir cynigion am weithredoedd rheoli yng Nghynllun Rheoli Drafft yACA Forol Sir Benfro erbyn diwedd 2003. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun rheoli drafft, ac yna cyflwynir y gweithredoedd rheoli a gytunir yn nogfen derfynol y cynllun rheoli - sydd ar hyn o bryd wedi ei hamserlennu ar gyfer diwedd 2004.

Cefndir yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig:

Y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd wrth gefn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yw Cyfarwydddeb 92/43/EEC Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ar "Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt" (a adwaenir fel y "Cyfarwydddeb Cynefinoedd"), a ddaeth i rym ar 21 Mai 1992. Nod canolog y Gyfarwydddeb yw gwarchod bioamrywiaeth (sef amrywiaeth bywyd) trwy holl ardal yr Undeb Ewropeaidd. Un o'r ffyrdd y mae'n ceisio cyflawni hynny yw trwy greu 'rhwydwaith ecolegol cydlynol o safleoedd' (Natura 2000) ar draws yr Undeb Ewropeaidd, a fydd yn cynnwys yr ACAu yn ogystal ag Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (safleoedd gwarchod adar). Dewisir safleoedd unigol, felly, am eu gwerth cynhenid o safbwynt cadwraeth natur yn ogystal â'u cyfraniad i gadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau penodol trwy'r Undeb Ewropeaidd yn ei gyfanrwydd.

Gweithredir y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn y DU trwy gyfrwng y "Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc.) 1994" (a adwaenir fel y "Rheoliadau Cynefinoedd"). Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer paratoi cynlluniau rheoli ar gyfer yr ACAu, ar y cyd gan y cyrff statudol sydd â swyddogaethau sy'n berthnasol i'r safle, sef yr 'awdurdodau perthnasol'. Yr unig ofyniad a ddiffinnir ar gyfer cynllun rheoli yw y dylai helpu i gyrraedd nodau'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd trwy warchod nodweddion cadwraeth y safle.

Rheolwyr yACA Forol Sir Benfro:

Mae'r awdurdodau perthnasol yn yACA Forol Sir Benfro wedi

ffurfio partneriaeth - sef y Grŵp Awdurdodau Perthnasol - i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu er mwyn diogelu nodweddion cadwraeth yr yACA a fydd yn ennyn y mesur ehangaf bosibl o ddealltwriaeth, cytundeb ac ymdeimlad o berchnogaeth ar ran y cyhoedd.

Rhoddir manylion am yr awdurdodau perthnasol isod, yn ogystal â'r prif 'awdurdodau cymwys' eraill (sef y cyrff statudol neu'r swyddfeydd cyhoeddus eraill gyda swyddogaethau sy'n berthnasol i gadwraeth forol) o fewn Sir Benfro.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) yw'r awdurdod gweithredol ar gyfer cadwraeth cynefin bywyd gwyllt a safleoedd daearegol, ac ar gyfer gwarchod rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion gwyllt yn y môr ac ar y tir yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn asiant i'r Llywodraeth yn y mater o gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol, ac y mae'n cynghori'r Llywodraeth trwy gyfrwng y Cydbwyllgor Gwarchod Natur. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cefn gwlad Cymru dan arolwg cyson, ac i gynnig cyngor annibynnol i'r Llywodraeth ac i eraill fel y bo angen, ar warchod ei harddwch naturiol a'i fwynderau, a mwynhad pobl Cymru ac ymwelwyr o'r nodweddion hynny. Hyrwyddir y mwynhad hwnnw gan y Cyngor, mewn modd sy'n annog dealltwriaeth o'r amgylchedd, ac yn cynnal cefnogaeth y cyhoedd i gadwraeth yr adnoddau naturiol.

Penodwyd **Dŵr Cymru / Welsh Water (DCWW)** gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymgymwrwr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer Cymru, yn unol â Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Fel y cyfryw, ymddiriedwyd iddo'r gwaith o ddarparu dŵr yfed glân ac iach i'w gwsmeriaid ac o gael gwared â'r carthion o'r carthffosydd, tra'n hyrwyddo cadwraeth yn ei holl weithgareddau.

Sefydlwyd **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW)** pan gafwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf yr Amgylchedd 1995, ac y mae gan yr Asiantaeth amrediad eang o ddyletswyddau a phwerau statudol. Mae'n darparu gwarchodaeth a gwelliannau amgylcheddol o ansawdd uchel yng Nghymru trwy roi pwyslais ar atal niwed ac addysgu, ynghyd â gorfodi egniol pan fo angen. Ei phrif swyddogaethau yw atal a rheoli llygredd, adnoddau dŵr, amddiffyn rhag llifogydd, pysgodfeydd, cadwraeth, mordwyo a gweithgareddau hamdden. Mae ei chyfrifoldebau am reoli llygredd a physgodfeydd, yn eu trefn, yn ymestyn 3 a 6 morfilltir o'r lan.

Porthladd Ymddiriedolaeth yw **Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (MHPA)** - a enwir yn ffurfiol yn Fwrdd Cadwraeth Aberdaugleddau - a sefydlwyd fel corff statudol annibynnol trwy Ddeddf Seneddol ym 1958. Ei ddyletswydd cyffredinol yw hyrwyddo ac amddiffyn buddiannau lleol a chenedlaethol wrth ddatblygu'r Aber er budd y cyhoedd. Yn benodol, mae'n gwasanaethu anghenion y tair purfa olew fawr a'u cyfleusterau o fewn yr Aber.

Awdurdod pwrpas arbennig yw **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (PCNPA)** a sefydlwyd ym 1996, pan ad-drefnwyd llywodraeth leol yng Nghymru. Mae Deddf yr Amgylchedd 1992 yn pennu dau bwrpas i'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr: cadwraeth, sef "gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt ac etifeddiaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol"; ac addysg a hamdden, sef "hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig (y Parciau)". Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APC) y ddyletswydd hefyd o hyrwyddo lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau o fewn y Parciau Cenedlaethol. Yr APC yw'r unig awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal o fewn ei ffiniau. Yn ogystal, mae'n prydlesu rhan helaeth o flaenau'r traethau



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - *Drafft ymgynghorol*

(rhwng y marciau distyll a phen llanw ar lanw cyffredin) o fewn ei ffiniau.

Awdurdod amlbwrpas yw **Cyngor Sir Benfro (PCC)** gyda chyfrifoldebau sy'n cwmpasu'r amgylchedd, trafniadaeth, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai a datblygu economaidd. Mae ei ddyletswyddau a'i weithgareddau yn cynnwys cynllunio gwlad a thref, amddiffyn yr arfordir, datblygu economaidd a thwristiaeth, rheoli'r arfordir, rheoli traethau, cynllunio ar gyfer argyfwng, a monitro ansawdd dŵr.

Awdurdodau cynllunio lleol yw PCNPA a PCC, gydag awdurdodaeth gynllunio sy'n ymestyn cyn belled â'r marc distyll cymedrig, ond nid y tu hwnt. Pan fo gweithrediadau morol yn galw am rywfaint o ddatblygu ar y lan, gellir gweithredu'r trefniadau cynllunio arferol.

Corff statudol yw **Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (SWSFC)**, a gyfansoddwyd yn unol â Deddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1996, er mwyn rheoleiddio, gwarchod a datblygu pysgodfeydd pysgod cregyn, a rheoleiddio pysgota neu ddal pysgod môr. Er 1992, mae'r PPM wedi bod dan ddyletswydd i ystyried cadwraeth yr amgylchedd morol ehangach, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau mwy penodol a osodwyd arnynt yn ddiweddar o ganlyniad i'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwydddeb Adar. Mae awdurdodaeth bresennol SWSFC yn ymestyn o Gaerdydd i Aberteifi, ac allan 6 morfilltir hyd at derfyn y bysgodfa arfordirol, sy'n golygu hyd at 22 milltir o'r lan mewn rhai mannau, oherwydd pellter rhai o'r ynysoedd allanol o'r tir mawr.

Dyletswydd **Gwasanaeth Goleudai Trinity House** yw darparu gwasanaeth cymhorthion mordwyo dibynadwy ac economaidd, er budd i bob dosbarth o fordwyrwr cyffredinol. Rhai o'i brif weithgareddau yw gosod bwiau, goruchwyllo a chydysnio i oleuadau lleol, marcio a/neu chwalu llongdrrylliadau, gweithrediadau hofrenyddion a goleudai, a darparu System Leoli Fyd-eang wahaniaethol.

Sefydlwyd **Ystâd y Goron** (yn ei ffurf bresennol gan Ddeddf Ystâd y Goron 1961. Yn unol â'r Ddeddf hon, rheolir yr Ystâd gan Fwrdd o Gomisiynwyr sydd dan ddyletswydd i 'gynnal a gwella gwerth yr Ystâd a'r elw a geir ohoni, ond gan roi ystyriaeth briodol i ofynion rheolaeth dda'. Ystâd mewn tir yw Ystâd y Goron sy'n cynnwys 55% o flaenau'r traethau a holl wely'r môr hyd at y terfyn 12 milltir. Mae Ystâd y Goron yn rhoi trwyddedau / prydlesi fel y gellir cynnal gweithgareddau ar ei thir (ond nid yw'r Ystâd yn trwyddedu gweithgareddau).

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yw'r adran o'r Llywodraeth sy'n ymdrin â bwyd, aer, tir, dŵr a phobl. Mae'n chwarae rhan bwysig mewn cydlynu polisiau ar yr amgylchedd morol. Ei phrif nod yw datblygu cynaliadwy, gan gynnwys sicrhau gwell amgylchedd a defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae DEFRA hefyd yn amcanu i wella cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig, gwella'r mwynhad a geir o gefn gwlad, a gwarchod a rheoli'r adnoddau bywyd gwylt.

Yr **Asiantaeth Arfordol a Gwylwyr y Glannau (MCA)** yw asiantaeth y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddiogelwch ar yr arfordir, gan ymateb i argyfyngau arfordirol, a lleihau effeithiau llygredd ar yr amgylchedd morol sy'n tarddu o longau, gan ofalu am fuddiannau'r DU.

Y **Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD)** sy'n darparu'r galluoedd amddiffyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch y Deyrnas Unedig a'r Tiriogaethau Tramor, gan gynnwys diogelu

rhag terfysgaeth, ac er mwyn cefnogi amcanion polisi tramor y Llywodraeth, yn arbennig hyrwyddo iechyd a diogelwch cenedlaethol. Mae gan y Weinyddiaeth sefydliadau hyfforddi yn Sir Benfro.

Sefydlwyd **Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAW)** gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988, i ymgymryd â phwerau a chyfrifoldebau Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer a'r cyfrifoldeb i ddatblygu a gweithredu polisiau mewn amrediad o feysydd.

Cynlluniau a Phrosiectau ac Asesiadau Priodol

Mae'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau yn gwahaniaethu rhwng 'gweithgareddau' ar y naill law, a datblygiadau ar y llaw arall, sy'n galw am ryw fath o gydysniad neu ganiatâd cyn y gallant symud ymlaen. Gelwir datblygiadau o'r fath yn **gynlluniau neu brosiectau**. Gall y materion a nodir yn y ddogfen hon fod naill ai'n weithgareddau neu'n gynlluniau a phrosiectau, neu weithiau'n gyfuniad o'r ddau. Er y byddant hwyrach yn gwahaniaethu yn y modd y'u rheolir, maent yn dal yn bynciau perthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Os yw **cynllun neu brosiect** yn debygol o effeithio'n sylweddol ar nodweddion cadwraeth y safle, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, yna gwneir **asesiad priodol** o'i oblygiadau i nodweddion cadwraeth y safle, yn ychwanegol at unrhyw asesiad effaith amgylcheddol arall. Pan nad yw'n eglur a fydd effaith cynllun neu gynnig yn sylweddol ai peidio, dylid ymgymryd ag asesiad priodol.

Byrfodau:

CCW	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CEC	Comisiynwyr Ystâd y Goron
CEFAS	Y Ganolfan ar gyfer Gwyddoniaeth yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu
DCWW	Dŵr Cymru Welsh Water
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DFT	Yr Adran Drafniadaeth
DTI	Yr Adran Masnach a Diwydiant
EAW	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
FEPa	Deddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd
IMO	Y Mudiad Morol Rhyngwladol
MCA	Yr Asiantaeth Arfordol a Gwylwyr y Glannau
MHPA	Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
MoD	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
NAW	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
NT	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
PCC	Cyngor Sir Benfro
PCNPA	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
SWSFC	Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru
WAG	Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yr ydym yn eich annog yn gryf i gyflwyno sylwadau ar y ddogfen hon. Dylid eu cyfeirio at y Swyddog ACA, Sue Burton, rhif ffôn 01646 696125, e-bost sburton@mhpa.co.uk, cyfeiriad post d/o Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, Blwch Swyddfa'r Post 14 Gorsewood Drive, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3ER. Dylai'r sylwadau gyrraedd erbyn 28 Chwefror 2003.



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - *Drafft ymgynghorol*

DEFNYDDIO ADNODDAU BYW

Ffermio Molysgiaid: Defnyddio treseli, rhaffau, cewyll etc i fagu pysgod cregyn molysgaidd (e.e. cregyn gleision, wystrys).
Statws: *Cyfredol* – dim un. *Yn y gorffennol* – Fferm Wystrys, Afon Caeriw. *Yn y dyfodol* – tebygol, yn arbennig yn y dyfroedd cysgodol o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Byddai angen arwynebeddau gwastad yn y rhynglanw ar gyfer ffermio molysgiaid o fewn yr Aber, ac yn islanwol, byddai angen iddynt fod y tu allan i'r brif sianel fordwy, ond eto mewn ardaloedd lle mae llif y llanw'n gymedrol.

Materion i'w hystyried: Newid is-haen gwely'r môr mewn mannau; cynyddu gwaddodi; cynyddu'r mewnbwn o faetholion; effeithiau ffisegol oherwydd mynd a dod o'r blaendraeth; aflonyddu ffisegol; colli a newid cynefinoedd / rhywogaethau. (Gweler hefyd: Cyflwyno rhywogaethau estron, Casglu â llaw.)

Rheolaeth: **NAW/DEFRA** trefniadau caniatâd, **SWSFC** (is-ddeddfau). Yn ychwanegol, cyn y gellir datblygu'n fasnachol ar gyfer gwerthu i'r cyhoedd, mae'n ofynnol i bysgodfeydd molysgiaid gael dosbarthiad iechyd gan PCC. Rhaid i strwythurau parhaol ar wely'r môr gael trwydded gan CEC hefyd. O fewn yr Aber, mae caniatâd MHPA yn ofynnol, ar sail criteria mordwyo a diogelwch. Pan fo'n berthnasol, rhaid ymgynghori â pherchnogion / deiliaid y safle arfaethedig.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Adolygu'r broses gydsynio, a sicrhau ei bod yn effeithiol. Nodi lleoliadau addas. Rhannu yn barthau.

"Ransio" Molysgiaid: Dyddodi molysgiaid ifanc (e.e. cregyn gleision, wystrys) yn uniongyrchol ar wely'r môr, gan gasglu'r oedolion yn ddiweddarach, trwy dreillio fel arfer.

Statws: *Cyfredol* – dim un. *Yn y gorffennol* – dim un. *Yn y dyfodol* – tebygol, oherwydd mynegwyd diddordeb eisoes yn nyfrffordd gysgodol Aberdaugleddau. Byddai angen ardaloedd gwastad yn y rhynglanw ar gyfer ransio o fewn yr Aber, ac yn islanwol, byddai angen iddynt fod y tu allan i'r brif sianel fordwy, ond eto mewn ardaloedd lle mae llif y llanw'n gymedrol.

Materion i'w hystyried: Newid a cholli is-haen gwely'r môr mewn mannau; cymylogrwydd cynyddol; aflonyddu ffisegol; colli a newid cynefinoedd / rhywogaethau; tynnu ymaith rywogaethau na thargedwyd yn ogystal â'r is-haen wrth adfer yr oedolion. (Gweler hefyd: Cyflwyno rhywogaethau estron, Casglu â llaw, Treillio (pysgodfeydd).)

Rheolaeth: **NAW/DEFRA** (trefniadau caniatâd), **SWSFC** (is-ddeddfau). Yn ychwanegol, cyn y gellir datblygu'n fasnachol ar gyfer gwerthu i'r cyhoedd, mae'n ofynnol i bysgodfeydd molysgiaid gael dosbarthiad iechyd gan PCC. O fewn yr Aber, mae caniatâd MHPA yn ofynnol, ar sail criteria mordwyo a diogelwch. Pan fo'n berthnasol, rhaid ymgynghori â pherchnogion / deiliaid y safle arfaethedig.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Adolygu'r broses gydsynio, a sicrhau ei bod yn effeithiol. Rheoleiddio pob ailosod. Nodi lleoliadau addas. Rhannu yn barthau.

Ffermio Pysgod (ar y tir): Systemau rhannol amgaeedig neu gaeedig sy'n caniatáu magu pysgod yn artiffisial er mwyn eu gwerthu. Mae technolegau amrywiol, a gofynion amrywiol gan hynny, yn bodoli, sydd hyd yn oed yn caniatáu cynhyrchu rhywogaethau trofannol mewn unedau cylchrediad caeedig.

Statws: *Cyfredol* – dim un. *Yn y gorffennol* – dim ond un fferm abwyd melys, yn Neyland. *Yn y dyfodol* – tebygol, yn arbennig yn yr Aber, lle mae tir datblygu a seilwaith ar gael ar lan y môr.

Materion i'w hystyried: Arllwys maetholion, plaladdwyr / gwrthfotigau / hormonau a dihangwyr i'r ddyfrffordd; ffynhonnell y stoc fwyd; colli/newid rhywogaethau a chynefinoedd ac effeithiau ar yr ecosystem. (Gweler hefyd:

Cyflwyno rhywogaethau estron, Arllwys elifant (diwydiannol).)

Rheolaeth: **EAW** (ansawdd dŵr), **PCC/PCNPA** (awdurdodau cynllunio lleol), **NAW/DEFRA/CEFAS** (rheoli heintiau).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Aseu priodol.

Ffermio Pysgod (mewn cewyll, yn y môr): Defnyddio cewyll i fagu/storio pysgod môr. Mae datblygiadau technolegol yn awr yn caniatáu arallgyfeirio i fagu rhywogaethau newydd megis y penfras, y lleden Ffrengig, a'r torbwt.

Statws: *Cyfredol* – fferm salmonidae, Daugleddau. *Yn y gorffennol* – un yn unig (am gyfnod byr) yn ychwanegol at y presennol. *Yn y dyfodol* – posibl, yn arbennig o fewn yr Aber mewn mannau dwfn gyda llif llanw cymedrol, y tu allan i'r brif sianeli mordwyo.

Materion i'w hystyried: Llygredd posibl gan faetholion / plaladdwyr / gwrthfotigau / hormonau; mewngludo plâu; addasu genetig oherwydd dihangwyr; ffynhonnell y stoc fwyd; rheoli ysglyfaethwyr (y morlo llwyd yn bennaf). (Gweler hefyd: Cyflwyno rhywogaethau estron, Arllwys elifant (diwydiannol).) Defnyddio atalyddion tyfiant gwenwynig.)

Rheolaeth: **EAW** (ansawdd dŵr) yn rhoi a gorfodi caniatadau arllwys. Trwydded CEC, PCC/PCNPA (awdurdodau cynllunio lleol) pan fo'n briodol. O fewn yr Aber, mae caniatâd MHPA yn ofynnol, ar sail criteria mordwyo a diogelwch. MCA (mordwyo a diogelwch), **NAW/DEFRA/CEFAS** (rheoli heintiau). Pan fo'n berthnasol, rhaid ymgynghori â pherchnogion / deiliaid y safle arfaethedig.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Aseu priodol.

Treillio hydrologig a thrwy sugno (pysgodfeydd): Tynnu ymaith molysgiaid deuglawr trwy sugno hydrologig, yn enwedig cyllyll môr (*Ensis* spp.). Mae'r gweithgaredd wedi ei ganolbwyntio ar y glannau isel ac yn islanwol yn yr ardaloedd gwaddod, yn arbennig ym Mae Sain Ffraid.

Statws: *Cyfredol* – Dim un yn wybyddus, er bod caniatadau wedi eu rhoi. *Yn y gorffennol* – dim un. *Yn y dyfodol* – diddordeb yn debygol.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ar gynefinoedd yn ffisegol; colli/newid cynefinoedd; tynnu ymaith y biota; sgil-ddalffa; effeithiau ar yr ecosystem; newid y prosesau gwaddodi.

Rheolaeth: **SWSFC** (caniatadau ac is-ddeddfau). Rhoddir caniatâd yn gyfredol ar gyfer llecynnau dyfnach na 10m islaw datwm siart gyda mesurau technegol. Mae is-ddeddf 27 yn gwahardd defnyddio unrhyw dreilliwr pysgota o fewn Gwarchodfa Natur Forol Ynys Sgomer. **NAW/DEFRA** (mesurau cenedlaethol). Mae cyfyngiadau maint yr UE yn berthnasol. O fewn yr Aber, mae caniatâd MHPA yn ofynnol, ar sail criteria mordwyo a diogelwch.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Aseu priodol. Rhannu yn barthau er mwyn diogelu lleoliadau sensitif.

Treillio danheddog / llafn (pysgodfeydd): Tynnu ymaith, trwy dreillio, molysgiaid deuglawr, yn enwedig wystrys, sydd i'w cael mewn ardaloedd islanwol o waddod cymysg o fewn yr Aber, a chregyn bylchog.

Statws: *Cyfredol* – mae treillio am wystrys yn digwydd yn gyfredol i fyny'r afon o Bont Cleddau, a threillio am gregyn bylchog yn digwydd yn achlysurol mewn ardaloedd addas sydd ar wasgar yn eang o gwmpas yr arfordir. *Yn y gorffennol* – fel yn gyfredol. *Yn y dyfodol* – mae'n bosibl y bydd yr ymdrech yn cynyddu neu'n newid ei lleoliad.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ar gynefinoedd yn ffisegol; colli/newid cynefinoedd a rhywogaethau (yn arbennig y rhai sy'n gyfyngedig eu lledaeniad, er enghraifft yn y foryd); tynnu ymaith y biota; effeithiau ar yr ecosystem; sgil-ddalffa, sy'n dibynnu ar yr is-haen, y math o offer a'r ymdrech. Yn



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

ychwanegol, mae'r wystrys brodorol (*Ostrea edulis*) yn rhywogaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) ac y mae'r stociau wedi lleihau dros y degawdau diwethaf. (Gweler hefyd: "Ransio" Molysgiaid.)

Rheolaeth: **SWSFC** (caniatadau ac is-ddeddfau). Mae tymor caeedig (is-ddeddf 45) yn bodoli ar gyfer y gragen fylchog (*Pecten maximus*) rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref. Mae is-ddeddf 27 yn gwahardd defnyddio unrhyw dreilliwr pysgota o fewn Gwarchodfa Natur Forol Ynys Sgomer. **NAW/DEFRA** (mesurau cenedlaethol). Mae cyfyngiadau maint yr UE yn berthnasol. O fewn yr Aber, mae caniatad MHPA yn ofynnol, ar sail criteria mordwyo a diogelwch.

Opsionau rheoli yn y dyfodol: Rheoleiddio mwy cynhwysfawr ar gyfer gofynion cadwraeth natur, yn arbennig treillio am wystrys o fewn yr Aber. Pan fo'n bosibl, ceisio mathau o reolaeth sy'n fanteisiol i bysgod cregyn ac o fudd i'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd. Rhannu yn barthau er mwyn diogelu lleoliadau sensitif.

Pysgota â gwialen neu lein llaw – masnachol ac adloniannol: Genweirio (yn fasnachol, ar gyfer draenogiaid môr / salmonidae yn bennaf).

Statws: *Cyfredol* – gweithgarwch masnachol achlysurol, yn bennaf yn yr Aber ac ar Turbot Bank. Genweirio adloniannol yn digwydd yn eang. *Yn y gorffennol* – cyffredin. *Yn y dyfodol* – yr ymdrech adloniannol yn debygol o gynyddu.

Materion i'w hystyried: Sgîl-ddalfa; effeithiau anuniongyrchol oddi wrth offer a gollwyd / a daflwyd i ffwrdd. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig (ffynonellau morol), Casglu abwyd.)

Rheolaeth: Ar gyfer llongau masnachol, is-ddeddfau/caniatadau **SWSFC** a mesurau cenedlaethol **NAW/DEFRA**. Mae cyfyngiadau maint yr UE yn berthnasol. Mae is-ddeddf 29 SWSFC yn cyfyngu pysgota mewn ardaloedd a ddynodwyd yn feithrinfeidd draenogiaid môr. Mae Cod Ymarfer SWSFC yn cyfeirio at enweirio. Trwydded/ is-ddeddfau EAW ar gyfer salmonidae a physgod dŵr croyw. Codau ymarfer gan PCNPA, CCW, EAW, a Cadwch Gymru'n Daclus (Ymglyrch Tacl Taclus). Is-ddeddfau NT.

Opsionau rheoli yn y dyfodol: Hyrwyddo ac annog cadw at y codau ymarfer sy'n bodoli eisoes. Addysgu ynghylch offer 'gwyrrdd' (pwysau di-blwm, leiniau bioddiraddadwy).

Rhwydo – sefydlog: Fel arfer, rhwydi gwaelod gosodedig, ar gyfer pysgod asgellog (e.e. penwaig a draenogiaid môr) a chramenogion.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin ac yn digwydd yn eang yn yr islanw bas o amgylch y creigresi ger y glannau. *Yn y gorffennol* – cyffredin. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Difrod ffisegol i rywogaethau bregus; sgîl-ddalfa o rywogaethau na thargedir (yn arbennig pysgod); effeithiau ar yr ecosystem oherwydd ymelwa (yn ormodol) ar y stoc; mae'r effeithiau hyn o bosibl yn waeth oherwydd 'rith-bysgota' gan offer a gollwyd neu a daflwyd i ffwrdd; gwrthdaro gyda mordwyo a gweithgareddau hamdden. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig (ffynonellau morol).)

Rheolaeth: **SWSFC** (is-ddeddfau/caniatadau, cod ymarfer cyffredinol). Mae is-ddeddf 30 yn cyfyngu ar y defnydd o rwydi sefydlog o fewn rhannau o'r yACA. **NAW/DEFRA** (mesurau cenedlaethol). Mae cyfyngiadau maint yr UE yn berthnasol. EAW (Gorchymyn Cyfyngu Rhwydi Cleddau ar gyfer rhwydi "compass").

Opsionau rheoli yn y dyfodol: Parhau i fonitro ymdrechion a gweithgarwch yng nghyd-destun y gofynion cadwraeth natur. Rhannu yn barthau er mwyn diogelu lleoliadau sensitif. Cynllunio a defnyddio deunyddiau sy'n fwy caredig i'r amgylchedd.

Rhwydi - drifft: Llenni o rwydi sy'n hongian yn y golofn ddŵr naill ai ar yr wyneb neu'n is i lawr, er mwyn dal pysgod pelagig (e.e. penwaig a draenogiaid môr). Defnyddir rhwydi llusg (rhwydi amgylchynu) hefyd o'r traethau, mewn dyfroedd ger y lan, e.e. ar gyfer llymriaid.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin ac yn digwydd yn eang mewn dyfroedd ger y lan. *Yn y gorffennol* – cyffredin. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Sgîl-ddalfa o rywogaethau na thargedir (yn arbennig pysgod, morloi); effeithiau anuniongyrchol oherwydd difrod ffisegol i rywogaethau bregus; posibilrwydd o 'rith-bysgota' ac effeithiau ffisegol ar gynefinoedd / rhywogaethau oherwydd offer a gollwyd; gwrthdaro gyda mordwyo a gweithgareddau hamdden. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig (ffynonellau morol).)

Rheolaeth: **SWSFC** (is-ddeddfau/caniatadau, cod ymarfer cyffredinol). Mae is-ddeddf 31 yn cyfyngu ar y defnydd o rwydi drifft o fewn rhannau o'r yACA. **NAW/DEFRA** (mesurau cenedlaethol), mae cyfyngiadau maint yr UE yn berthnasol. O fewn yr Aber, mae caniatad MHPA yn ofynnol, ar sail criteria mordwyo a diogelwch.

Opsionau rheoli yn y dyfodol: Parhau i fonitro ymdrechion a gweithgarwch yng nghyd-destun y gofynion cadwraeth natur. Rhannu yn barthau er mwyn diogelu lleoliadau sensitif. Cynllunio a defnyddio deunyddiau sy'n fwy caredig i'r amgylchedd.

Cewyll: Defnyddio trapiau gwahanol gydag abwyd, a ddodir ar wely'r môr er mwyn dal cramenogion megis crancod neu gimychiaid (cewyll 'potiau inc' a 'photiau parlwr') neu rai molysgiaid megis cregyn moch.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin ac yn digwydd yn eang yn yr islanw bas o amgylch y creigresi ger y glannau. *Yn y gorffennol* – cyffredin. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Difrod ffisegol i rywogaethau bregus; sgîl-ddalfa o rywogaethau na thargedir (pysgod tiriogaethol), effeithiau ar yr ecosystem oherwydd ymelwa (yn ormodol) ar y stoc; 'rith-bysgota' yn gwaethygu'r effeithiau. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig (ffynonellau morol).)

Rheolaeth: **SWSFC** (is-ddeddfau/caniatadau, cod ymarfer cyffredinol). **NAW/DEFRA** (mesurau cenedlaethol). Mae cyfyngiadau maint yr UE yn berthnasol.

Opsionau rheoli yn y dyfodol: Parhau i fonitro ymdrechion a gweithgarwch yng nghyd-destun y gofynion cadwraeth natur. Rhannu yn barthau er mwyn diogelu lleoliadau sensitif. Cynllunio a defnyddio deunyddiau sy'n fwy caredig i'r amgylchedd.

Treillio gyda rhwydi: Defnyddio rhwyd fawr ar ffurf twndis i ddal pysgod môr, gan ei thynnu trwy'r dŵr gyda chychod sengl neu barau o gychod. Gellir tynnu'r rhwydi ar hyd gwely'r môr (treillio dyfnforol) neu trwy'r dŵr canol (treillio pelagig). Defnyddir treilliadau lletraws (sy'n aml yn targedu lledod ac yn gallu gweithio ar wely garw), treilliadau dyfrgi (pysgod dyfnforol cymysg) a threilliadau pâr (pysgod dyfnforol cymysg, megis draenogiaid môr) o fewn yr yACA.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin ac yn digwydd yn eang bellter o'r lan ac ar wely cymysg. *Yn y gorffennol* – cyffredin. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol a cholli/newid cynefinoedd; difrodi biota a'u tynnu ymaith; lleihau'r bioamrywiaeth (yn arbennig mewn cymunedau sefydlog); effeithiau ar yr ecosystem; sgîl-ddalfa/pysgod a deflir i ffwrdd; dewis offer amhriodol. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig (ffynonellau morol).)

Rheolaeth: **SWSFC** (is-ddeddfau/caniatadau, cod ymarfer cyffredinol). Mae is-ddeddf 27 yn gwahardd defnyddio



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

unrhyw dreilliwr lletraws o fewn Gwarchodfa Natur Forol Ynys Sgomer. **NAW/DEFRA** (mesurau cenedlaethol). Mae cyfyngiadau maint yr UE yn berthnasol.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Rheoleiddio pellach ar sail cadwraeth natur. Rhannu yn barthau er mwyn rhwystro treillio yn yr ardaloedd mwyaf sensitif.

Casglu â llaw: Mae casglu biota â llaw (h.y. yn anfecanyddol) yn digwydd yn nodweddiadol ar bob math o lannau, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n hawdd cael mynediad atynt. Y rhywogaethau a gesglir yn fwyaf cyffredin yn rhynglanwol yw gwichiad, cregyn gleision, gwymon (e.e. *Porphyra* spp. ar gyfer bara lawr) a môr-wial ar lannau creigiog; cocos, wystrys a chyllyll môr ar y glannau lle mae cymysgedd o waddod a chlogfeini, a llyrllys (*Salicornia* sp.) o'r morfeydd heli. Mae'r rhan fwyaf o'r casglu ar raddfa fach ac ar gyfer defnydd personol, ond weithiau gweithredir ar raddfa fawr, ar gyfer gwerthu'n fasnachol (naill ai'n uniongyrchol neu fel stoc 'had'). Cesglir rhywogaethau hefyd yn islanwol - gydag offer sgwba gan amlaf - yn bennaf cramenogion (cimychiaid, cimychiaid Mair a chrancod) a chregyn bylchog.

Statws: *Cyffredol* - cyffredin ac yn digwydd yn eang, ond gyda rhai llecynnau o ymdrech dwys. *Yn y gorffennol* - cyffredin (er enghraifft, priodolwyd y lleihad yn niferoedd cimychiaid Mair yn y 1970/80au i ddeifwyr a oedd yn eu casglu - i ddibenion masnachol yn bennaf). *Yn y dyfodol* - yn parhau.

Materion i'w hystyried: Dihysbyddu rhywogaethau, effeithiau ar yr ecosystem ac aflonyddu ffisegol. Mae casglu masnachol yn peri pryder arbennig mewn rhai mannau penodol oherwydd y dwysedd uwch. (Gweler hefyd: Casglu abwyd, Sarnu).

Rheolaeth: Is-ddeddfau a chyfyngiadau maint **SWSFC** (mae'r cyfyngiadau maint yn berthnasol i bysgod môr yn unig). Cyn y gellir datblygu'n fasnachol ar gyfer gwerthu i'r cyhoedd, mae'n ofynnol i bysgodfeydd molysgiaid gael dosbarthiad iechyd gan PCC. Mae gan **CCW**, a'r perchnogion / deiliaid gytundebau rheoli ar gyfer pob SoDdGA yn y parth rhynglanwol. Mae'r perchnogion / deiliaid hefyd yn rheoli'r mynediad i'r glannau.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Gwell rheoleiddio ar gyfer gofynion cadwraeth natur, yn enwedig casglu pysgod cregyn rhynglanwol i ddibenion masnachol o fewn yr Aber.

Casglu abwyd: Cesglir abwyd i ddibenion masnachol a hamdden. Mae'r dulliau yn cynnwys troi clogfeini drosodd i gasglu "plicwyr" (crancod) a gwichiad, tyllu â llaw am abwyd melys ac abwyd du, a defnyddio teils a theiars crancod. Rhai o'r mannau casglu dwys yw Gann a'r glannau eraill o waddod a chlogfeini o fewn yr Aber.

Statws: *Cyffredol* - cyffredin ar lannau hygrych gydag is-haenau cymysg, ond ceir rhai mannau lle mae gweithgarwch dwys. *Yn y gorffennol* - cyffredin. *Yn y dyfodol* - yn parhau.

Materion i'w hystyried: Dihysbyddu rhywogaethau; effeithiau ar yr ecosystem; aflonyddu ffisegol; Mae casglu masnachol yn peri pryder arbennig mewn rhai mannau penodol oherwydd y dwysedd uwch. (Gweler hefyd: Casglu â llaw, Pysgota â gwialen neu lein llaw.)

Rheolaeth: Mae casglu abwyd ar gyfer defnydd personol yn ategol i'r hawl gyhoeddus i bysgota, ond ar hyn o bryd ni reoleiddir y casglu gan unrhyw ddeddfwriaeth ar bysgodfeydd môr na deddfwriaeth arall (mae is-ddeddfau a chyfyngiadau maint SWSFC yn berthnasol i bysgod môr yn unig). Fodd bynnag, mae'n anghyfreithlon cymryd abwyd ar gyfer ei werthu'n fasnachol heb ganiatâd y tîrfeddiannwr (onid oes hawl yn bod trwy ddefod). Mae gan CCW, a'r perchnogion / deiliaid gytundebau rheoli ar gyfer pob SoDdGA yn y parth rhynglanwol. Mae'r perchnogion / deiliaid hefyd yn rheoli'r mynediad i'r glannau. Mae cod ymarfer cyffredinol gan SWSFC sy'n ymdrin â chasglu abwyd.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Monitro'r ymdrech a'r gweithgarwch. Rheoleiddio er mwyn y gofynion cadwraeth natur, ac yna gweithredu, gorfodi ac addysgu. Annog defnyddio abwyd a ffermiwyd, o ffermydd abwyd cynaliadwy, nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd.



Casglu ar gyfer y fasnach acwaria a chreiriau: Mae casglu rhywogaethau morol ar gyfer y farchnad acwaria (pysgod dŵr heli tymherus ac infertebrata) neu fel creiriau (cregyn, etc.), yn digwydd o fewn yr yACA, er nad yw'n gyffredin.

Statws: *Cyffredol* - achlysurol. *Yn y gorffennol* - casglwyd môr-ddraenogod (Echinoidea) yn aml fel creiriau. *Yn y dyfodol* - yn parhau.

Materion i'w hystyried: Tynnu biota byw ymaith ac effeithiau posibl ar yr ecosystem. (Gweler hefyd: Casglu â llaw.)

Rheolaeth: Mae is-ddeddfau a chyfyngiadau maint SWSFC a'r mesurau cenedlaethol (DEFRA/NAW) ac Ewropeaidd yn berthnasol i bysgod môr yn unig. Mae gan CCW ar y cyd â'r perchnogion / deiliaid gytundebau rheoli ar gyfer pob SoDdGA yn y parth rhynglanwol. Mae'r perchnogion / deiliaid hefyd yn rheoli'r mynediad i'r glannau.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Addysgu



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

DEFNYDDIO ADNODDAU ANFYW

Treillio agregau – tywod a graean: Mae treillio agregau yn tynnu is-haen ymaith o wely'r môr, fel arfer yn islanwol. Mae'r banciau tywod islanwol, megis Turbot Bank, Bais Bank, a banciau a geir yn The Knoll, creigresi Hats & Barrels, ac Ynys Gwales dan fgythiad penodol.

Statws: *Cyfredol* – dim un. *Yn y gorffennol* – dim un. *Yn y dyfodol* – posibilrwydd oherwydd y cyfyngiadau ym Môr Hafren a allai gyfeirio sylw at leoedd ymhellach draw, megis Sir Benfro.

Materion i'w hystyried: Tynnu cynefinoedd ymaith; cymylogrwydd cynyddol; newid y prosesau sy'n cludo gwaddod; colli a difrodi rhywogaethau; effeithiau ar yr ecosystem.

Rheolaeth: **DEFRA/NAW** (ceisiadau) gyda chynngor gan CCW. **CEC** (trwyddedu)

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Asesu priodol.

Dulliau amgen o gynhyrchu ynni - tonnau arfordirol a llif llanw:

Mae ynni adnewyddadwy yn ddiwydiant morol newydd. Cynigiwyd gwahanol ddulliau o gynhyrchu pŵer o'r tonnau a'r llanw, ac y mae'r ymchwil iddynt yn parhau. Ar gyfer safle llif llanw parhaol byddai angen arwynebedd o wely'r môr sy'n eang a gwastad, gyda llif llanw cymedrol neu uchel islaw dyfnder o tua 30m.

Statws: *Cyfredol* – dim un. *Yn y gorffennol* – dim un. *Yn y dyfodol* – posibil. Cynhaliwyd arbrofion o fewn yr yACA eisoes ar gyfer cynhyrchu ynni llif llanw.

Materion i'w hystyried: Colli/newid cynefinoedd/rhywogaethau oherwydd adeiledd parhaol a cheblau cysylltiedig ar wely'r môr; difwyno posibl o ganlyniad i'r deunyddiau a ddefnyddir (atalyddion tyfiant, hylifau hydrolig); aflonyddu ffisegol yn ystod y datblygu a'r gweithredu. (Gweler hefyd: Defnyddio atalyddion tyfiant gwenwynig.)

Rheolaeth: **DTI/DfT/DEFRA/NAW** (ceisiadau), **CEC** (trwyddedu). PCC/PCNPA (awdurdodau cynllunio lleol) mewn perthynas â goblygiadau ar y lan.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Asesu priodol. Rhannu yn barthau.

Adnoddau dŵr a storio dŵr - alldynnu dŵr croyw: Mae alldynnu dŵr croyw (ar gyfer dyfrhau, pyllau ar gyfer storio yn y gaeaf, ffermydd pysgod etc.) yn digwydd yn bennaf yn rhannau uchaf llednentydd dyfrffordd Aberdaugleddau.

Statws: *Cyfredol* – Rhoddwyd 28 trwydded i alldynnu o'r Afonydd Cleddau. *Yn y gorffennol* – ychydig o wahaniaeth o gymharu â'r presennol. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Lleihad yn y mewnbwn o ddŵr croyw i'r foryd, a allai arwain at golli/newid cynefinoedd a rhywogaethau moryd, ac effeithiau posibl ar ddyfrgwn, herlynod a llyswod pendwll.

Rheolaeth: **EAW** sy'n trwyddedu alldynnu (ac eithrio achosion sy'n esempt) gan gymryd i ystyriaeth yr effaith bosibl ar yr amgylchedd. Mae'r holl drwyddedau hyn o dan ystyriaeth ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar ardaloedd yACA. Mae EAW hefyd yn datblygu Strategaethau Dalgylch ar gyfer Rheoli Alldynnu (SDRha). Disgwylir y bydd gwaith ar SDRha Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro yn dechrau yn ystod 2004. Mae ACC a DCWW yn hyrwyddo defnyddio dŵr yn effeithlon.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Cysylltu â Chynllun Rheoli yACA Afonydd Cleddau.

GWAREDU GWASTRAFF

Dŵr ffo amaethyddol: Mae Sir Benfro yn ardal o ffermio dwys, gyda gwartheg llaeth yn bennaf, a chnydau â, lle mae tatws yn llywodraethol. Mae dŵr ffo sy'n cludo pridd, plaladdwyr / chwynladdwyr, silwair (yn yr haf) a slyri (yn y gaeaf) yn llifo o afonydd/nentydd a hyd yn oed o ben y clogwyni, dros ardal eang. Mae'n bosibl y gallai dyfrffordd Aberdaugleddau ddiodeff effeithiau gwaethaf y dŵr ffo amaethyddol, oherwydd ei dalgylch eang.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin. *Yn y gorffennol* – cyffredin. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Effeithiau ar ansawdd dŵr oherwydd cynnydd yn lefelau cemegion a maetholion; gwaddodi/cymylogrwydd cynyddol; newid mewn cynefinoedd / rhywogaethau; effeithiau ar yr ecosystem. (Gweler hefyd: Patrymau tywydd byd-eang a'u canlyniadau.)

Rheolaeth: Y cynllun gwirfoddol Tir Gofal (**CCW/ Adran Amaethyddiaeth NAW**). Mae **EAW** yn ymweld â ffermydd ynglŷn ag atal llygredd, i'w hannog i fabwysiadu'r arferion gorau, i gynnig cynngor ac i orfodi cynlluniau rheoli ffermydd. Mae creu lleiniau clustogi (trwy ffensio glannau afonydd etc.) yn arbennig o effeithiol ar gyfer lleihau erydiad pridd, ac y mae'n bosibl y bydd EAW ac Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro yn ehangu'r gwaith hwn. Cytundebau rheoli gyda pherchnogion / deiliaid (e.e. PCC, NT).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Cysylltu â Chynllun Rheoli yACA Afonydd Cleddau. Bydd gan y Gyfarwyddiaeth Fframweithiau Dŵr (pan ddaw i rym) ei gofynion monitro ei hunan. Cynyddu ymwybyddiaeth.

Dadlwytho deunydd gwastraff: Dadlwytho deunyddiau anadweithiol, ar y glannau ac yn islanwol.

Gan amlaf mae'r carthion o waith treillio (gwaith cyfalaf a chynnal a chadw) mewn glanfeydd a phorthladdoedd yn cael eu cludo allan i'r môr, a'u dadlwytho ymhell o'r lan, i'w gwasgaru'n naturiol gan y llif a'r llanw ar wely'r môr dwfn. Gall y gwaddodion mân gael eu cludo am bellter hir gan y prosesau naturiol, ac y mae'n bosibl nad ar y safle dadlwytho yn unig yr effeithir, ond hefyd safleoedd ymhellach o lawer i ffwrdd. Mae'n ofynnol treillio yn rheolaidd i gynnal a chadw'r sianelau mordwyo o fewn yr Aber a'r blychau docio yng nglanfeydd y purfeydd olew.

Statws: *Cyfredol* – Mae'r deunydd treillio cynnal a chadw o'r gweithrediadau porthladd o fewn yr Aber yn cael ei daflu tu hwnt i'r yACA i'r de o'r Smalls, ac y mae ymchwil ar droed i effeithiau hynny ar yr yACA. Yn rhynglanwol, mae deunydd treillio cynnal a chadw o farina Neyland yn cael ei symud o byllau yn Westfield Pill i Black Bridge. *Yn y gorffennol* – Yr oedd deunydd treillio cynnal a chadw o'r gweithrediadau porthladd yn yr Aber yn cael ei ddadlwytho o fewn ardal yr yACA gyfredol, ond oherwydd yr effeithiau ar Warchodfa Natur Forol Ynys Sgomer cynhaliwyd ymchwil a daethpwyd o hyd i safleoedd eraill. Yn rhynglanwol, dadlwythwyd deunydd yn Ward's Yard, Burton, Westfield Pill a Neyland. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol; lefelau cynyddol o gymylogrwydd yn y golofn ddŵr; mygu cynefinoedd a rhywogaethau gwely'r môr. (Gweler hefyd: Gwaith treillio cyfalaf a chynnal a chadw)



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

Rheolaeth: Mae trwydded i ddadlwytho deunydd gwastraff yn ofynnol. Islaw'r pen llanw (ar y llanw mwyaf) mae'n ofynnol cael trwydded FEPA gan **DEFRA/NAW**. Mae'r drefn drwyddedu'n cynnwys ymgynghori â CCW. Uwchlaw'r pen llanw (ar y llanw mwyaf) mae'n ofynnol cael trwydded rheoli gwastraff ar y glannau, gan **EAW**. PCC/PCNPA (awdurdodau cynllunio lleol). Mae MHPA wedi cynnal nifer o astudiaethau manwl er dechrau'r 1990au i geisio dewis safleoedd amgen i ddadlwytho gwastraff treillio, er mwyn lleihau'r effeithiau amgylcheddol i'r eithaf.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Aseu priodol. Canfod ffyrdd o ddefnyddio'r deunydd gwastraff er mwyn lleihau'r dadlwytho gymaint ag y bo modd. Cynyddu ymwybyddiaeth. Ceisio newid trefniadau trwyddedu FEPA fel eu bod yn cynnwys gweithgareddau pysgota, oherwydd ar hyn o bryd nid oes angen trwydded i ddadlwytho gwastraff pysgodfeydd etc.

Arllwys elifant (diwydiannol): Gall arllwysiau o wastraff diwydiannol o darddleoedd pwynt penodol gynnwys gwahanol sylweddau, er enghraifft organoclorinau, metelau trwm a phetrocemegion mewn crynodiadau isel. Gall tarddleoedd pwynt sy'n arllwys sylweddau gwastraff hirbarhaus ymhell o'r safle fod yn berthnasol hefyd (e.e. mae lefelau uwch o Cesiwm 137, sy'n tarddu o'r diwydiant niwclear, yn bresennol ym Môr Iwerddon).

Statws: *Cyfredol* – yn digwydd yn eang, ond yn bennaf yn yr ardaloedd mwyaf diwydiannol yn yr Aber. *Yn y gorffennol* – fel ar hyn o bryd, gyda Gorsaf Bŵer Penfro yn ychwanegol. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Difwynyddion hirbarhaus; effeithiau cronus ar gynefinoedd/rhywogaethau. (Gweler hefyd: Gwaredu elifant (carthion), Llygredd aer, Llygru gan hydrocarbonau.)

Rheolaeth: Mae pob arllwysiad yn cael ei reoli trwy system statudol o drwyddedau megis caniatadau arllwys a thrwyddedau gweithredol, a roddir ac a orfodir gan **EAW**. Gosodir terfynau ar gyfer y sylweddau a arllwysir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (mae proses o adolygu'r caniatadau ar droed ar hyn o bryd), yn unol â'r arweiniad a roddir mewn deddfwriaeth / cyfarwyddedau cenedlaethol. Mae **DCWW** yn defnyddio Cynlluniau Rheoli Asedau er mwyn sicrhau bod cyfleusterau digonol ar gael.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Sicrhau bod yr arllwysiau'n bodloni gofynion y cyfarwyddedau (e.e. y Gyfarwydded Dŵr Ymdrochi, y Gyfarwydded Pysgod Cregyn, a'r Gyfarwydded Fframweithiau Dŵr pan ddaw i rym). Cynyddu ymwybyddiaeth.

Gwaredu elifant (carthion): Mae gwastraff domestig a waredir o darddleoedd pwynt penodol yn cynnwys nid yn unig gynhyrchion gwastraff organig dynol, ond gwastraff anorganig a chemegau yn ogystal (e.e. glanedyddion a arllwysir i sinclau, olew a arllwysir i ddraeniau).

Statws: *Cyfredol* – Mae 19 man penodol o fewn yr yACA sy'n arllwys carthffosiaeth, y mwyafrif ohonynt yn arllwys i mewn i'r Aber. Mae bron hanner y rhain yn cael triniaeth drydyddol. *Yn y gorffennol* – cyffredin. *Yn y dyfodol* – yn parhau, ond mae'n debygol y bydd rhagor yn cael ei drin.

Materion i'w hystyried: Difwyno / colli / newid cynefinoedd

a rhywogaethau; effeithiau ar yr ecosystem; aflonyddu ffisegol; posibilrwydd o ewtroffeiddio trwy ychwanegu at y maetholion yn y dŵr – yn enwedig yn yr Aber, sy'n gymharol gaeedig; iechyd y cyhoedd a difwyno pysgod cregyn. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig.)

Rheolaeth: Rheolir yr holl arllwysiau trwy system statudol o drwyddedau a adwaenir fel caniatadau arllwys, a roddir ac a orfodir gan **EAW**. Pennir terfynau ar y sylweddau a arllwysir yng ngweithdrefn adolygu caniatadau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yn unol â'r arweiniad a roddir mewn deddfwriaeth / cyfarwyddedau cenedlaethol. Mae **DCWW** yn defnyddio Cynlluniau Rheoli Asedau er mwyn sicrhau bod cyfleusterau digonol ar gael.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Sicrhau bod yr arllwysiau'n bodloni gofynion y cyfarwyddedau (e.e. y Gyfarwydded Dŵr Ymdrochi, y Gyfarwydded Pysgod Cregyn, a'r Gyfarwydded Fframweithiau Dŵr pan ddaw i rym). Addysgu dulliau gwaredu addas.

Gwaredu elifant (carthion) o longau/badau: Mae gwaredu carthion o longau / badau (masnachol a hamdden) yn digwydd yn gyffredin, heb driniaeth neu ar ôl triniaeth sylfaenol, i'r môr. Dylai fod cyfleusterau rheoli ar gael yn y mwyafrif o borthladdoedd a marinâu i ymdrin â gwastraff.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin. *Yn y gorffennol* – cyffredinol. *Yn y dyfodol* – yn gwella wrth i'r deddfwriaeth gynyddu. **Materion i'w hystyried:** Difwyno / colli / newid cynefinoedd a rhywogaethau; effeithiau ar yr ecosystem; aflonyddu ffisegol; posibilrwydd o ewtroffeiddio trwy ychwanegu at y maetholion yn y dŵr – yn enwedig yn yr Aber, sy'n gymharol gaeedig; iechyd y cyhoedd a difwyno pysgod cregyn. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig (ffynonellau morol).)

Rheolaeth: **IMO, DfT/DTI, MCA** (Atodiad IV i'r Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Atal Llygredd o Longau (MARPOL 73/78)). Awdurdodau'r harbwr (MHPA yn yr Aber) / diwydiant, megis purfeydd a marinâu (cyfleusterau i dderbyn carthion ar y glannau). Dylid adrodd am achosion o lygru wrth MCA (neu wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru os yw'r achos o fewn 3 morfilltir i'r arfordir).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Estyn y cynlluniau rheoli gwastraff porthladdoedd i gynnwys carthion (MCA). Addysg. Gallai fod o fudd, o safbwynt rheoli, dynodi rhan neu'r cyfan o'r yACA yn Ardal Rlsg Uchel Amgylcheddol Forol (ARUAF).

Gwastraff a sbwriel anorganig: Gwastraff a sbwriel anorganig yn tarddu o'r môr neu o'r tir, boed yn ddamweiniol neu'n fwriadol.

Ffynonellau morol: Yn aml o longau masnachol sy'n hwylio heibio, pysgota a chychod hamdden. Gall gwr pysgota a gollwyd neu a daflwyd ymaith achosi 'rhyth-bysgota', gan greu cylch cyson o wastraffu dalfeydd o'r rhywogaethau a dargedir ac eraill, a difrodi cymunedau a rhywogaethau yn y cynefinoedd ar wely'r môr. Gall rhwydi a rhaffau pysgota hefyd gorddeddu am bob math o fywyd gwyllt morol (gan gynnwys adar) a phropelorau cychod. Gall cargo a gollir neu a deflir i'r môr (e.e. coed, cynwysyddion, bocsys pysgod) fod yn beryglus i fordwywyr a hwyrach achosi llygredd (e.e. llwythi o olew llysiuol, drymiau o gemegion sy'n gollwng, etc). Gall colledion mawr o gargo achosi aflonyddu ffisegol a sarnu ar y lan wrth geisio'u hadfer.



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

Ffynonellau ar y tir: defnyddwyr y traethau (twristiaeth) yn bennaf a ffermio. Gall deunyddiau hirbarhaus, fel gorchuddion plastig amaethyddol a ddefnyddir i brysuru cnydau cynnar, gel eu chwythu o'r tir i'r môr, a chael eu gadael gan y llanw ar y traethau. Mae dadlwytho heb ganiatâd hefyd yn digwydd, yn enwedig mewn afonydd lle y cludir y deunyddiau i lawr yr afon gan y llif.

Mae sbwriel o'r môr ac o'r tir i'w ganfod yn eang ar hyd yr arfordir, ac y mae'n cronni ar y traethau ac o fewn yr Aber oherwydd y prifwyntoedd sy'n chwythu o'r de-orllewin. Mae'r gwyntoedd hyn a'r llanw hefyd yn cludo malurion o leoedd ymhell allan ar y môr, ac o wledydd tramor

Statws: *Cyfredol* – Cyffredin, dosbarthiad eang. *Yn y gorffennol* – yr oedd data Beachwatch 2000 (gan y Gymdeithas Gadwraeth Forol) ar gyfer Cymru yn dangos mai ymwelwyr â'r traeth oedd ffynhonnell traean o'r sbwriel ar y traethau. O gymharu â gweddill y DU, Cymru oedd â'r dwysedd uchaf o sbwriel o longau, ac yr oedd dwysedd y malurion pysgota yn ddwywaith yr hyn ydoedd mewn mannau eraill. *Yn y dyfodol* – Trwy'r DU, mae maint cyffredinol y sbwriel yn tueddu i leihau ychydig, ond bydd deunyddiau hirbarhaus (plastigau, yn benodol) yn parhau i gyfrannu at y lefelau sbwriel uchel a gofnodir.

Materion i'w hystyried: Colli niweidio rhywogaethau morol; aflonyddu ffisegol; difwyno; estheteg. (Gweler hefyd: Gwaredu elifant (carthion).)

Rheolaeth: **Mudiad Morol Rhyngwladol, DFT/DTI, MCA** (deddfwriaeth ryngwladol a chenedlaethol, gan gynnwys y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Atal Llygredd o Longau (MARPOL 73/78) a'r Rheoliadau Llongau Masnachol). Awdurdodau harbwr – MHPA yn yr Aber – (cynlluniau rheoli gwastraff y porthladdoedd). Yn benodol, mae gan MHPA is-ddeddf sbwriel, ac y mae wedi erlyn troseddwr o fewn terfynau'r Aber. Dylid adrodd am achosion o lygru wrth MCA (neu wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru os yw'r achos o fewn 3 morfilltir i'r arfordir). Mae PCC yn ymgymryd â glanhau rhai o'r traethau (glanhau'n rheolaidd ar draethau baner las ac yn achlysurol ar y traethau gwobr werdd), ac y mae grwpiau Gofal Arfordir Cadwch Gymru'n Daclus yn glanhau'r traethau a fabwysiadwyd ganddynt.

Opsionau rheoli yn y dyfodol: Addysgu (lleihau, aildefnyddio, ailgylchu), codi ymwybyddiaeth, glanhau traethau, gwyliadwriaeth gan yr heddlu. Gwella rheoli gwastraff ar y môr. Arferion da ar longau. Gallai fod o fudd, o safbwynt rheoli, dynodi rhan neu'r cyfan o'r yACA yn Ardal Rlsg Uchel Amgylcheddol Forol (ARUAF). O fewn yr Aber, bydd MHPA yn parhau i addysgu ac i erlyn pan fo angen.

Dŵr ffo trefol a diwydiannol: Dŵr ffo trefol a diwydiannol o ffynonellau tryledol neu darddleoedd pwynt.

Mae'r **tarddleoedd pwynt** yn cynnwys safleoedd diwydiannol megis purfeydd/cyfleusterau olew, neu'r marinâu a'r iardiau cychod, lle y gall gwaith cynnal a chadw achosi i grafiadau atalyddion tyfiant a chemegion gyrraedd y ddyfrffordd gerllaw. Cynhwysir hefyd damweiniau ffyrdd lle mae llygryddion yn gorlifo, er enghraifft allan o gludwyr tanciau.

Mae'r **ffynonellau tryledol** yn cynnwys ffyrdd a lleoliadau amhenodol eraill. Amcangyfrifir bod oddeutu 90% o'r holl

lygru gan olew yn tarddu o arllwysladau, treiddiadau a dŵr ffo trefol.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin, dosbarthiad eang. *Yn y gorffennol* – cyffredin, dosbarthiad eang. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Effeithiau andwyol ar ansawdd dŵr yn y dyfroedd ger y glannau dy'n agos at aneddiadau, gan achosi difwyno / colli / newid cynefinoedd a rhywogaethau ac effeithio ar yr ecosystem. (Gweler hefyd: Llygredd arforol gan hydrocarbonau (arllwysladau gweithredol bach), Defnyddio atalyddion tyfiant gwenwynig.)

Rheolaeth: Gall **PCC** ac **EAW** ddylanwadu ar y ffynonellau tryledol ond ni allant eu rheoleiddio. Gall EAW ofyn am osod rhyng-gipwyr olew i leihau'r olew ffo o safleoedd diwydiannol yn ogystal â ffyrdd (yn enwedig gerllaw cyffyrdd, ac annog datblygwyr i weithredu Cynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy (CDTC). PCC/PCNPA (awdurdodau cynllunio lleol).

Opsionau rheoli yn y dyfodol: Mae angen lleihau maint y llygryddion a arllwysir ar y môr. Addysg.

Llygredd aer: Gall llygredd aer ddeillio o darddleoedd pwynt megis safleoedd diwydiannol (er enghraifft, simneiau uchel) yn ogystal ag o ffynonellau tryledol megis traffig moduron.

Statws: *Cyfredol* – posibilrwydd mai'r Aber, fel ardal drefol ddwys a diwydiannol, a fydd yn dioddef waethaf. Canfyddiad y cyhoedd yw mai'r purfeydd sy'n cyfrannu fwyaf i'r llygru. *Yn y gorffennol* – y posibilrwydd o lygru yn uwch oherwydd bod yr orsaf bŵer yn ychwanegol, a'r dechnoleg a oedd ar gael yn gyffredinol yn llai effeithlon. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Effeithiau andwyol ar ansawdd y dŵr (yn enwedig mewn dyfrffyrdd) oherwydd sylweddau nwyol yn cynnwys sylffwr asidig - sef y 'glaw asid' a all achosi difwyno / colli / newid cynefinoedd a rhywogaethau, ac effeithiau ar yr ecosystem.

Rheolaeth: Mae tim rheoleiddio diwydiant proses **EAW** yn adolygu'r wybodaeth a gesglir wrth fonitro tarddleoedd pwynt megis y purfeydd; cynhelir archwiliadau rheolaidd. Mae **PCC** yn monitro ansawdd yr aer i ddibenion iechyd amgylcheddol.

Opsionau rheoli yn y dyfodol: Sicrhau y bydd rheolaethau llym yn parhau.



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

GWEITHGARWCH PERTHYNOL I LONGAU/BADAU

Angori: Cadw llong / bad (masnachol neu hamdden) ynghlwm dros dro wrth wely'r môr trwy ollwng angor.

Statws: *Cyfredol* – Mae angori llongau masnachol mawr yn ddigwyddiad cyffredin ym Mae Sain Ffraid ac mewn mannau dynodedig o fewn yr Aber. Mae angori llongau / badau hamdden yn digwydd yn eang mewn mannau sy'n agos at y glannau. *Yn y gorffennol* – Yr oedd nifer y llongau masnachol mawr a gofnodwyd yn angori ym Mae Sain Ffraid ar ganol y 1990au tua hanner y nifer presennol. Yr oedd nifer y llongau hamdden yn llai nag ydyw ar hyn o bryd. *Yn y dyfodol* – Dylai nifer y llongau masnachol leihau, tra bo nifer y llongau hamdden yn cynyddu.

Materion i'w hystyried: Difrodi / colli cynefinoedd a rhywogaethau gwely'r môr; aflonyddu ffisegol, yn enwedig mewn mannau creigiog a gwelyau o wellt y gamlas (*Zostera* spp.); tanceri olew ym Mae Sain Ffraid a'r posibilrwydd o ddigwyddiad o ganlyniad i fethiant mecanyddol a/neu'r prifwyntoedd cryfion. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig, Gwaredu elifiant (carthion) o longau/badau.)

Rheolaeth: **DFT/DTI, MCA** (rheoleiddio symudiadau llongau yn y DU, Ardaloedd i'w Hosgoi, MHPA (rheoleiddio symudiadau llongau yn yr Aber, mannau angori dynodedig). Mewn porthladdoedd bach eraill, hwyrach mai PCC, PCNPA, Ystâd y Goron neu gymdeithasau perchnogion cychod a fydd yn gyfrifol am y rheoli. Gallai fod o fudd, o safbwynt rheoli, dynodi rhan neu'r cyfan o'r yACA yn Ardal Risg Uchel Amgylcheddol Forol (ARUAF). Mae Gwarchodfa Natur Forol Ynys Sgomer yn gwahardd angori llongau / badau hamdden mewn parth o amgylch y gwely o wellt y gamlas yn North Haven.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Gwahardd / lleihau angori mewn mannau sensitif yn amgylcheddol megis Bae Sain Ffraid. Rhannu yn barthau. Annog darparu Tynfad Argyfwng (TA) ar gyfer yr ardal. Gallai dynodi'r yACA yn Ardal Risg Uchel Amgylcheddol Forol (ARUAF) fod o gymorth mewn perthynas â llongau masnachol, gan y bydd yn cyfyngu ar y traffig.

Angorfeydd: Mae angorfeydd ar gyfer llongau / badau yn galw am adeileddau parhaol ar wely'r môr. Dyranwyd mannau ar gyfer angorfeydd yn yr Aber a'r porthladdoedd llai ar gyfer llongau / badau masnach a hamdden.

Statws: *Cyfredol* – Mae'r rhan fwyaf o'r angorfeydd masnachol yn yr yACA i'w cael o fewn yr Aber; Mae angorfeydd hamdden i'w cael ar wasgar trwy'r Aber, yn y porthladdoedd llai ac yn y baeau cysgodol. *Yn y gorffennol* – fel yn gyfredol. *Yn y dyfodol* – parhau, ac yn debyg o gynyddu ar gyfer defnyddwyr hamdden.

Materion i'w hystyried: Difwyno / colli / newid cynefinoedd a rhywogaethau gwely'r môr; aflonyddu ffisegol, yn enwedig mewn mannau creigiog ger y lan ac mewn gwelyau o wellt y gamlas (*Zostera* spp.); Posibilrwydd o effeithiau llygru cronig yn y mannau sydd yn union gerllaw'r angorfa (gan ddibynnu ar y modd y'i defnyddir). (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig, Gwaredu elifiant (carthion) o longau/badau.)

Rheolaeth: Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd, **CEC** yw perchennog gwely'r môr, a rhaid cael prydles cyn y gellir codi unrhyw adeiledd parhaol arno. **MHPA** yn aml sy'n gweinyddu'r prydles o fewn yr Aber, a pha bynnag gorff arall sy'n gweithredu fel awdurdod porthladd mewn

mannau eraill. Sefydlwyd Ardaloedd Cadwraeth Gwirfoddol (ACG) yn yr Aber, lle y gall cymdeithasau perchnogion cychod reoli eu safleoedd eu hunain. Mae cymdeithasau perchnogion cychod i'w cael hefyd mewn mannau eraill ar hyd yr arfordir agored.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Rhannu yn barthau er mwyn atal / lleihau nifer yr angorfeydd mewn ardaloedd amgylcheddol-sensitif. Adolygu a monitro (arfordir agored).

Defnyddio atalyddion tyfiant gwenwynig: Mae angen defnyddio atalydd tyfiant ar longau / badau ac ar rai adeileddau tanddwr eraill i lesteirio tyfiant morol. Oherwydd y traffig llongau trwm, mae'r risg yn uchel yn yr Aber a'r porthladdoedd llai o amgylch, a'r dyfroedd sy'n ffinio ar y marinâu a'r iardiau lle y gwneir gwaith cynnal ar gychod.

Statws: *Cyfredol* – mae TBT bellach wedi ei wahardd ar longau / badau o dan 25m. *Yn y gorffennol* – Yn draddodiadol, defnyddiwyd paent gwrth-dyfiant sy'n cynnwys TBT, ond profwyd bellach bod TBT yn achosi i rai organebau morol newid eu rhyw. *Yn y dyfodol* – os cadarnheir argymhellid y Mudiad Morol Rhyngwladol, rhoddir y gorau i ddefnyddio ATG yn raddol, ac yn llwyr erbyn 2008.

Materion i'w hystyried: Difwyno; difwyno / colli / newid cynefinoedd a rhywogaethau; effeithiau ar yr ecosystem. (Gweler hefyd: Dŵr ffo trefol a diwydiannol.)

Rheolaeth: **IMO/DFT/DTI/MCA** (deddfu parhaus mewn perthynas â diogelwch a llygredd ar longau, ac yn benodol y Confensiwn Rhyngwladol ar Reoli Systemau Niweidiol ar gyfer Atal Tyfiant ar Longau - Hydref 2001). MHPA (Cynlluniau rheoli gwastraff mewn porthladdoedd).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Cynyddu ymwybyddiaeth. Gwellu'r modd y rheolir gwastraff mewn marinâu / iardiau cychod trwy atal rhyddhau golchiadau / llwch atalydd tyfiant i'r dyfrffyrdd.

Cyflwyno rhywogaethau estron: Rhywogaethau 'estron' yw rhywogaethau anfrodorol sydd wedi eu cyflwyno i'r ardal, naill ai'n fwriadol neu, fel sy'n digwydd yn amlach, yn ddamweiniol. Cludir y rhain yn aml yn y balast mewn llongau neu yn y tyfiant ar waelod llong, ond hefyd o ganlyniad i ddyframaethu.

Statws: *Cyfredol* – dosbarthiad eang. *Yn y gorffennol* – dosbarthiad eang. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Newid yr ecosystem yn effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd brodorol. (Gweler hefyd: Arllwys dŵr balast, Ffermio molysgiaid a Ransio molysgiaid.)

Rheolaeth: **IMO/DFT/DTI/MCA** (deddfu parhaus mewn perthynas â diogelwch a llygredd ar longau). MHPA (rheolaeth gwastraff yn y porthladd, mewn perthynas â balast budr), DEFRA (cyflwyno'n fwriadol).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Ymchwil a monitro. Cytundebau rhyngwladol yn ofynnol.

Gwaith treillio, cyfalaf a chynnal a chadw: Mae treillio yn angenrheidiol, mewn prosiectau cyfalaf i greu mannau datblygu newydd a hefyd i gynnal a chadw llwybrau mordwyo ar gyfer llongau / badau. Mae angen treillio angorfeydd llongau, marinâu, sianelau mordwyo a'r mynedfeydd i borthladdoedd yn rheolaidd, rhag i waddodion Gronni'n ormodol.

Statws: *Cyfredol* – yn yr Aber, mae rhai prosiectau cyfalaf wedi eu cynnig, ac y mae treillio ar gyfer cynnal a chadw yn digwydd yn rheolaidd. *Yn y gorffennol* – treillio ar



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - *Drafft ymgynghorol*

gyfer prosiectau cyfalaf a chynnal a chadw o fewn yr Aber. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Cymylogrwydd cynyddol; aflonyddu ffisegol; mygu rhywogaethau / cynefinoedd; newid / colli'r is-haen. Yn achos treillio cyfalaf, gallai creu daliant o lygryddion hirbarhaus yn y dŵr trwy gynhyrfu'r gwaddodion fod yn fater o bwys. (Gweler hefyd: Dadlwytho deunydd gwastraff.)

Rheolaeth: Mae angen caniatâd **DEFRA/DFT (Uned Caniatadau ac Amgylchedd Morol)** i symud yr is-haen. Rheolir y gwaith treillio ei hunan gan **MHPA** (o fewn yr Aber) neu gyrff eraill yn y manau lle y maent yn gweithredu fel awdurdod porthladd.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Aseu priodol ar gyfer prosiectau treillio cyfalaf. Ymchwilio i'r llygryddion mewn gwaddodion yn yr Aber.

Arllwys dŵr balast: Mae ar bob llong angen balast er mwyn galluogi'r llong i gadw ei safle priodol yn y dŵr. Mae maint y dŵr a gedwir fel balast yn dibynnu ar faint a phwysau'r cargo a gludir yn y llong. O ganlyniad mae angen newid y dŵr balast yn aml, a cholli'r peth ohono i'r amgylchedd lleol. Gall dŵr balast gludo rhywogaethau morol (yn aml ar ffurf plancton) o un rhan o'r byd i'r llall, a thrwy hynny ychwanegu rhywogaethau anffroddol. Gall llygryddion megis atalyddion tyfiant fod yn bresennol hefyd. Mae'r Aber yn ardal sy'n peri pryder arbennig gan fod cymaint o longau'n ymweld, er mai tynnu balast allan o'r Aber a wneir fynychaf, yn hytrach na'i arllwys i mewn, gan fod mwyafrif y llongau'n cyrraedd yr Aber yn llawn o gargo.

Statws: *Cyfredol* – dosbarthiad eang. *Yn y gorffennol* – dosbarthiad eang. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Difwyno a newid yr ecosystem yn effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd brodorol. (Gweler hefyd: Cyflwyno rhywogaethau estron, Defnyddio atalyddion tyfiant gwenwynig.)

Rheolaeth: **IMO/DFT/DTI/MCA** (deddfu parhaus mewn perthynas â diogelwch a llygredd ar longau, ac yn benodol y Confensiwn Rhyngwladol Drafft ar Oruchwylio a Rheoli Dŵr Balast mewn Llongau). **MHPA** (Cynlluniau rheoli gwastraff yn y porthladdoedd ar gyfer dŵr balast budr o fewn yr Aber)

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Cytundeb rhyngwladol yn ofynnol (mabwysiadu confensiwn). Tynhau'r rheolaeth leol (**MHPA**). Annog cyfnewid balast ar y cefnfor, fel dull mwy priodol. Gallai fod o fudd, o safbwynt rheoli, dynodi rhan neu'r cyfan o'r yACA yn Ardal Rlsg Uchel Amgylcheddol Forol (ARUAF).

Arllwys dŵr gwaelodion: Mae'r dŵr gwaelodion ar long yn aml wedi ei ddifwyno gan olew tanwydd, olew peiriant, sain a malurion. Mae arllwys y dŵr hwn i'r Aber yn fater sy'n peri pryder penodol gan fod cynifer o longau'n ymweld. Yn ychwanegol, gallai'r traffig prysur ym Môr Iwerddon effeithio ar yr yACA wrth hwylio heibio, heb ddod ar ei chyfyl, gan fod unrhyw lygryddion a ollyngir yn debygol o gael eu chwythu i'r lan.

Statws: *Cyfredol* – dosbarthiad eang. *Yn y gorffennol* – dosbarthiad eang. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Difwyno; effeithiau cronus; colli / newid rhywogaethau a chynefinoedd; effeithiau ar yr ecosystem. (Gweler hefyd: Defnyddio atalyddion tyfiant gwenwynig, Llygru arforol gan hydrocarbonau – arllwysiau gweithredol bach.)

Rheolaeth: **IMO/DFT/DTI/MCA** (deddfu parhaus mewn perthynas â diogelwch a llygredd ar longau). **MHPA**

(Cynlluniau rheoli gwastraff yn y porthladdoedd o fewn yr Aber, cyfleusterau ar gyfer dŵr gwaelodion budr)

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: O fewn yr Aber, bydd **MHPA** yn parhau i addysgu ac i erlyn pan fo angen. Cynyddu ymwybyddiaeth o arllwys dŵr gwaelodion fel problem gyffredinol i longau / badau ym mhob man (tanceri, cychod pysgota, cychod hamdden).

Llygru arforol gan hydrocarbonau - arllwysiau damweiniol llym (canolig neu fawr): Mae

'hydrocarbonau' yn cynnwys olew crai yn ogystal â chynhyrchion olew puredig a chynhyrchion nwy. Cludir hydrocarbonau'n feunyddiol trwy'r yACA mewn tanceri, yn ôl ac ymlaen o'r purfeydd o amgylch Aberdaugleddau (bensen yw'r unig betrocemegyn a gludir yn rheolaidd o fewn yr Aber). Mae digwyddiadau o lygru morol gan hydrocarbonau, a rheolaeth y digwyddiadau wedyn, yn amrywio o ran maint a chymhlethdod. Rhai o'r ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth yw maint a lleoliad yr arllwysiad, a mathau, tynged ac ymddygiad y llygrydd neu'r llygryddion eu hunain. Mae gorlifiadau damweiniol mawr o olew yn ddigwyddiadau prin, ond yn eang eu heffeithiau pan ddigwyddant. Dylid nodi mai arllwysiau, treiddiadau a hylif ffo trefol sy'n achosi'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau o lygru gan olew.

Yr Aber yw'r lleoliad mwyaf sensitif i unrhyw ddigwyddiad o fewn yr yACA, oherwydd dwysedd symudiadau'r llongau a'r manau rhynglanwol cysgodol.

Statws: *Cyfredol* – prin. *Yn y gorffennol* – prin. Aeth y Sea Empress ar y creigiau ym 1996 gan ollwng 72,000 tonnall fetrig o olew crai a 480 tonnall fetrig o olew tanwydd i'r môr ac achosi i 200 km o'r morlin gael eu difwyno. *Yn y dyfodol* – posibl.

Materion i'w hystyried: Mygu cynefinoedd a rhywogaethau; aflonyddu ffisegol; difwyno gwenwynig; colli / newid cynefinoedd a rhywogaethau; effeithiau ar yr ecosystem; estheteg; defnyddio gwasgaryddion mewn ardaloedd sensitif; defnyddio golchwyr pŵer gyda dŵr poeth i lanhau traethau sensitif. (Gweler hefyd: Llygru arforol gan hydrocarbonau - arllwysiau gweithredol bach, Arllwys elfiant (diwydiannol), Dŵr ffo trefol a diwydiannol, Sarnu.)

Rheolaeth: **MCA** (gweithredu deddfwriaeth llygredd, rheoliadau diogelwch arforol, monitro llygredd morol, Cynllun Argyfwng Cenedlaethol ar gyfer llygredd arforol), **MHPA** (diogelwch llongau, llygredd, y mordwyo sydd o fewn rheolaeth y porthladd, sef yn benodol gweithredu Cod Diogelwch Morol y Porthladd a Chynllun Argyfwng Llygredd Olew Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau). **PCC** (cynllun llygredd olew ar gyfer y morlin, System Wybodaeth Ymateb Brys, Gŵr Ymgynghorol Llygredd Olew Gorllewin Cymru (WWOPAG) – (cynllun argyfwng), **PCNPA/CCW/EAW/DEFRA** (Gŵr Amgylchedd Gorllewin Cymru – **WWE** – cynllun argyfwng).

Mae'r ymateb o ran glanhau yn dibynnu ar leoliad a maint yr arllwysiad olew. Ar gyfer gorlifiadau 'haen' 2 neu 3 (canolig i fawr), mae'r ymateb mewn perthynas â dŵr yn gyfrifoldeb i **MCA** (ac i **MHPA** o fewn yr Aber). Ar y lan, cyfrifoldeb **PCC** yw'r glanhau. Rhoddir cyngor amgylcheddol i unrhyw un, neu bob un, o'r canolfannau a sefydlir i ymateb i ddigwyddiad llygru morol gan Gŵr Amgylchedd Gorllewin Cymru (Cynllun Argyfwng Cenedlaethol, MCA 2000).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Lleihau'r risg i'r eithaf. Estyn yr arferion rheoli gorau i'r ardaloedd sydd y tu allan i awdurdodaeth **MHPA**. Lleoli Tynfad Argyfwng (TA) yn y rhan ddeheuol o Fôr Iwerddon. Gallai fod o fudd, o



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

safbwynt rheoli, dynodi rhan neu'r cyfan o'r yACA yn Ardal Rlsg Uchel Amgylcheddol Forol (ARUAF). Sicrhau bod gwybodaeth a rhagofalon lleol digonol yn rhan annatod o'r cynlluniau rhanbarthol / lleol a'r cyngor a roddir i'r canolfannau ymateb. Ymarfer ac adolygu'r cynlluniau argyfwng yn rheolaidd (cynnal parodrwydd cyson i ymateb). Cefnogi sefydlu un gronfa ddata llygredd olew ar gyfer Sir Benfro (ar GIS).

Llygru arforol gan hydrocarbonau - arllwysiadau gweithredol bach: Mae'n anochel bod arllwysiadau gweithredol bach yn digwydd o bryd i'w gilydd mewn porthladdoedd mawr a phrysur, yn enwedig un sy'n gwasanaethu'r diwydiant olew. Maent yn digwydd fel arfer wrth drosglwyddo cargo o'r llong i'r lan (neu o chwith), wrth olchi tanciau, oherwydd llygru gan ddŵr gwaelodion, neu wrth lwytho tanwydd. Yn ychwanegol, mae defnyddwyr masnachol eraill megis pysgotwyr a defnyddwyr hamdden yn gyfrifol am achosion o lygru ar raddfa fach o amgylch y marinâu a'r angorfeydd. Mae'r gorlifiadau sy'n tarddu o weithrediadau beunyddiol yn rhai bach (fel arfer) ac yn digwydd o ganlyniad i fethiant mecanyddol neu gamgymeriad dynol. Dylid nodi mai arllwysiadau, treiddiadau a hylif ffo trefol sy'n achosi'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau o lygru gan olew.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin. *Yn y gorffennol* – cyffredin. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol; difwyo; colli / newid cynefinoedd a rhywogaethau; effeithiau ar yr ecosystem. (Gweler hefyd: Arllwys ddŵr gwaelodion, Llygru arforol gan hydrocarbonau - arllwysiadau damweiniol llym (canolig neu fawr), Cychod pŵer (hamdden), Arllwys elifant (diwydiannol), Dŵr ffo trefol a diwydiannol.)

Rheolaeth: **MCA** (gweithredu deddfwriaeth llygredd, rheoliadau diogelwch arforol, monitro llygredd morol, Cynllun Argyfwng Cenedlaethol ar gyfer llygredd arforol), **MHPA** (diogelwch llongau, llygredd, y mordwyo sydd o fewn rheolaeth y porthladd, sef yn benodol gweithredu Cod Diogelwch Morol y Porthladd a chynlluniau rheoli gwastraff y Porthladd). Cynlluniau argyfwng olew lleol a rhanbarthol (Gweler hefyd: gorlifiadau damweiniol llym (canolig neu fawr)). Diwydiant (e.g. marinâu, iardiau cychod) rheoli gwastraff ac arferion gorau. EAW (cyfleusterau ar y lan).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Arferion da ar longau. Parhau i ddatblygu'r arferion gorau ar y glanfeydd o fewn yr Aber, gan gynnwys gweithrediadau cynnal a chadw a

thrin offer. Addysgu a chodi ymwybyddiaeth pob defnyddiwr (diwydiant, pysgota a hamdden). O fewn yr Aber, bydd MHPA yn parhau i addysgu ac i erlyn pan fo angen.

Colledion cargo (heblaw hydrocarbonau):

Gweler: Gwastraff a sbwriel anorganig (o ffynonellau morol).

Cychod pŵer (hamdden): Mae gweithgareddau hamdden sy'n ymwneud â dŵr yn boblogaidd iawn yn Sir Benfro, ac y mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn fawr, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Yn ogystal â chychod preifat, mae cychod siarter a thripiâu mewn cychod hefyd ar gael. Mae tripiâu mewn cwch i weld y bywyd gwylt yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Y rhai, fodd bynnag, sy'n peri pryder penodol i'r yACA yw'r cychod pŵer sydd, ar wahân i'r posibilrwydd o achosi gwrthdaro â defnyddwyr eraill (cychod heb beiriant a cherddwyr ar lwybr yr arfordir), yn aml yn achosi aflonyddu ffisegol.

Statws: *Cyfredol* – cyffredin, dosbarthiad eang. *Yn y gorffennol* – ychydig yn llai o ddefnydd, ond dosbarthiad eang eto. *Yn y dyfodol* – yn debygol o gynyddu.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ar y morloi llwydion o amgylch yr ynysoedd ger yr arfordir, ar draethau anhgyrch ar y tir mawr ac mewn ogofâu, yn enwedig yn ystod y tymor paru ar ddiwedd yr haf neu'n gynnar yn yr hydref; aflonyddu ar gynefinoedd cysgodol a dyfrgwn yn y rhannau tawelaf o'r Aber. Gall yr aflonyddu ddigwydd oherwydd y sŵn, yr effaith weledol, adlif y cychod neu gyffwrdd yn ffisegol. (Gweler hefyd: Llygru arforol gan hydrocarbonau - arllwysiadau gweithredol bach.)

Rheolaeth: Ni reoleiddir cychod pŵer ac eithrio cychod gweithredwyr masnachol, sydd naill ai'n cludo teithwyr neu'n gychod siarter. **MCA** sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am drwyddedu cychod o'r fath, er bod PCC hefyd yn gweithredu fel yr awdurdod trwyddedu lleol. Mae MCA yn cynghori ar ddiogelwch cychod hamdden. Mae PCC ac PCNPA rhyngddynt yn rheoli'r rhan fwyaf o'r llythfeydd sy'n rhoi mynediad at y dŵr. O fewn yr Aber, mae **MHPA**, mewn partneriaeth â chyrff eraill, wedi datblygu Cynllun Hamdden Dyfrffordd Aberdaugleddau, a gefnogir gan is-ddeddfau MHPA.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Addysgu / codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth a'r codau cenedlaethol. Ystyried cefnogi cod morol ar gyfer gweithredwyr masnachol.



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

GWEITHGARWCH NAD YW'N BERTHYNOL I LONGAU/BADAU

Saethu (fel adloniant): Mae saethu adar gwyllt, fel gweithgarwch hamdden, yn digwydd ar y glannau rhynglanwol, o fewn yr Aber yn bennaf.

Statws: *Cyfredol* – achlysurol, defnyddir rhai o'r hoff safleoedd yn rheolaidd. *Yn y gorffennol* – achlysurol. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol, ar ddyfrgwn yn benodol; colli / newid cynefinoedd; posibilrwydd o ddifwyo gan beledi plwm, lle y parheir i'w defnyddio. (Gweler hefyd: Sarnu.)

Rheolaeth: **CCW** (SoDdGAu, gwarchodfa adar Cleddau), caniatâd perchennog / deiliad (e.e. **CEC**, **NT**). Pembrokeshire Wildfowlers Association a Pembrokeshire Rod & Gun Club (cytundebau rheoli a thrwyddedau).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Nodi'r manau lle mae dyfrgwn yn brysur a'u hychwanegu at y cytundebau rheoli. Annog mabwysiadu arferion gorau ac aelodaeth o BASC (y Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Brydeinig), a chlybiau sy'n gysylltiedig â BASC.

Sarnu: Gall sarnu ar y glannau ddigwydd mewn gwahanol ffyrdd - cyfres o ymweliadau yn olynol o Ganolfannau'r Cyngor Astudiaethau Maes, prifysgolion, colegau, ysgolion; gweithgareddau hamdden megis dilyn y glannau neu saethu; neu hyd yn oed gwaith glanhau gorlifiad olew. Mae'r effeithiau, wrth reswm, yn dibynnu ar ddwyseidd, parhad ac amllder yr ymweliadau.

Statws: *Cyfredol* – achlysurol, defnyddir rhai o'r hoff safleoedd yn rheolaidd. *Yn y gorffennol* – achlysurol. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol; colli / newid rhywogaethau a chynefinoedd; effeithiau ar yr ecosystem. (Gweler hefyd: Llygru arforol gan hydrocarbonau - ymateb a glanhau.)

Rheolaeth: **CCW** (SoDdGAu), caniatâd gan berchnogion / deiliaid. **Sefydliadau addysgol** (arferion gorau).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Sicrhau bod yr arferion gorau'n lleihau i'r eithaf unrhyw effeithiau hirdymor oherwydd aflonyddu (gweithredir trwy Siarter Awyr Agored Sir Benfro.)

Adeiladu creigres artiffisial: Gwnaed archwiliadau rhagarweiniol yn lleol i'r posibilrwydd o greu rhwystr artiffisial er mwyn atal tonnau, i ddibenion hamdden. Mae'n amlwg y byddai'r effeithiau'n dibynnu ar y deunydd a ddefnyddid ac ar leoliad y greigres.

Statws: *Cyfredol* – dim un. *Yn y gorffennol* – dim un. *Yn y dyfodol* – posibl.

Materion i'w hystyried: Newid y nodweddion hydrodynamig; colli / newid rhywogaethau a chynefinoedd; aflonyddu ffisegol yn ystod y datblygu a'r gweithredu; cynyddu'r bygythiad oherwydd ymelwa'n fasnachol ar ddeifio a physgota.

Rheolaeth: Byddai ar unrhyw ddyluniad angen caniatâd **DEFRA/DfT (Uned Caniatadau ac Amgylchedd Morol)**, ac yna trwydded gan **CEC** ar gyfer adeildd parhaol ar wely'r môr. Trwydded FEPA. PCC/PCNPA (awdurdodau cynllunio lleol) pan fo'n briodol. MCA sy'n gyfrifol am ddiogelwch llongau / badau ar y môr - gallai creigres artiffisial achosi perygl i fordwywyr.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Asesu priodol.

Peirianeg Sifil: Gall peirianeg sifil gwmpasu amrediad helaeth o weithgareddau, gan gynnwys

adeiladu (a chynnal a chadw), llithrfeydd, porthladdoedd (gyda'r posibilrwydd o locio), glanfeydd a morgloddiau, yn ogystal â cheblau a phiblinellau tanddwr. Mae gan bob un o'r datblygiadau neu'r gweithiau cynnal a chadw hyn eu goblygiadau eu hunain, y dylid eu hystyried. Lleolir y rhain yn bennaf mewn ardaloedd trefol. Gallai llawer o'r datblygiadau morol arwain at ragor o weithgarwch cychod, a thrwy hynny achosi problemau llygru a gwrthdaro rhwng defnyddwyr. Mae'r dull rheoli yn dibynnu ar a yw'r gwaith peirianeg sifil o fewn awdurdodaeth yr awdurdod cynllunio lleol ai peidio.

Statws: *Cyfredol* – cynnal a chadw rheolaidd. *Yn y gorffennol* – cyffredin. Gwnaed cynnig i locio Afon Penfro. *Yn y dyfodol* – yn parhau. Posibilrwydd o orsaf bŵer tanwydd ffosil a chyfleusterau nwy naturiol hylifedig o fewn yr Aber.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol; posibilrwydd o newid y nodweddion hydrodynamig; difwyo posibl (o ganlyniad i'r datblygu a'r cynnal a chadw e.g. paent); colli / newid rhywogaethau a chynefinoedd; rhwystr i bysgod mudol; dadgomisiynu adeilddau. (Gweler hefyd: Dŵr ffo trefol, Cychod pŵer (hamdden).)

Rheolaeth: **DfT/DfT/DEFRA/NAW** (proses ganiatadau, trwydded FEPA). PCC/PCNPA (awdurdodau cynllunio lleol) pan fo'n briodol. **CEC** rheoli trwyddedau ar wely'r môr. Mae gan CGCC a ACC swyddogaeth gynghori. Ymgynghorir ag MHPA o fewn yr Aber.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Asesu priodol. Sicrhau bod anghenion yr yACA'n cael sylw islaw'r marc distyll, tu hwnt i'r awdurdodaeth gynllunio.

Pŵer niwclear

Gweler: Arllwys elifiant (diwydiannol)

Gweithgareddau milwrol - gwaredu / manau gwaredu: Gwaredu hen ffrwydrion milwrol mewn manau dynodedig ar wely'r môr.

Statws: *Cyfredol* – Hen safle gwaredu ffrwydrion na ddefnyddir bellach 15 km i'r gorllewin o Freshwater West, gyferbyn â maes ymarfer Castlemartin. *Yn y gorffennol* – gwaredu sylweddol, ond prin yw'r wybodaeth. *Yn y dyfodol* – annhebygol.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol; difwyo posibl; colli / newid rhywogaethau a chynefinoedd (Gweler hefyd: Gweithgareddau milwrol - meysydd ymarfer ordnans.)

Rheolaeth: **MoD** (Memorandwm Dealltwriaeth rhwng y Swyddfa Gymreig a'r Weinyddiaeth Amddiffyn (1995) mewn perthynas â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Casglu gwybodaeth am waredu yn y gorffennol.

Gweithgareddau milwrol - meysydd ymarfer ordnans: Tanio taflegrau i'r môr yn fwrriadol / ddamweiniol yn ystod ymarferiadau'r lluoedd arfod.

Statws: *Cyfredol* – mae ardaloedd perygl morol gan yr MoD gyferbyn â meysydd ymarfer Castlemartin a Maenorbyr. *Yn y gorffennol* – fel yn gyfredol. *Yn y dyfodol* – yn parhau.

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol; colli / newid rhywogaethau a chynefinoedd (Gweler hefyd: Gweithgareddau milwrol - gwaredu / manau gwaredu.)

Rheolaeth: **MoD** (Memorandwm Dealltwriaeth rhwng y Swyddfa Gymreig a'r Weinyddiaeth Amddiffyn (1995) mewn perthynas â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Monitro'r ymdrech a'r gweithgarwch.



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - Drafft ymgynghorol

CYFFREDINOL

Patrymau tywydd byd-eang a'u canlyniadau: Mae'r patrymau tywydd byd-eang yn newid. Rhai o ganlyniadau hyn i yACA Forol Sir Benfro fydd newid tymheredd (yr aer a'r môr), newidiadau yn y llanw a'r cerrynt, codi lefel y môr a chynnydd yn nifer y stormydd.

Materion i'w hystyried: Newid yn amllder a/neu ddsbarthiad rywogaethau a chymunedau. (Gweler hefyd: Dŵr ffo trefol a diwydiannol, Llygredd aer.)

Rheolaeth: Mae rhai o'r dulliau rheoli cyfredol yn adweithiol (e.e. codi morgloddiau) ac eraill yn rhagweithiol (e.e. rheoli allyriannau i'r awyr).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Er bod rhaid gweithredu ar raddfa fyd-eang i ddatrys y broblem fyd-eang, gall gweithredu'n berthnasol yn lleol gyfrannu ychydig at ei datrys. Hyrwyddo'r ymwybyddiaeth y gall môr iach helpu i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol yn systemau tywydd y byd (e.e. trwy gyfrwng y mewnlifiad CO₂ i'r plancton). Pwysleisio rheoli rhagweithiol, gwella'r ymwybyddiaeth y dylid defnyddio ynni adnewyddadwy (e.g. polisi deunyddiau adnewyddadwy NAW/WAG).

Lles anifeiliaid: Mae lles anifeiliaid, yn enwedig anifeiliaid gwyllt megis morloi, yn fater emosïynol, sydd o bwys mawr i lawer o bobl. Mae rhai anifeiliaid gwyllt yn cael eu dal a'u cadw tra'n derbyn gofâl, cyn eu rhyddhau yn ôl i'w hamgylchedd priodol. Rhai o'r rhesymau dros wneud hyn yw salwch, anafiadau, ac analluogrwydd. Gweithgareddau dynol, yn aml, sy'n achosi'r pethau hyn, er enghraifft llygru gan olew, sbwriel morol neu'r ryngweithio â physgodfeydd (ffermydd pysgod, rhwydi, etc.). Yn ychwanegol, mae haint pendol yn bygwth morloi'r DU (sef firws clefyd y morloi - PDV).

Materion i'w hystyried: Aflonyddu ffisegol ar anifeiliaid iach; dadleoli a symud rhywogaethau; cludo afiechydon i boblogaethau gwyllt; gorgynefino anifeiliaid gwyllt â dynion. (Gweler hefyd: Gwastraff a sbwriel anorganig.)

Rheolaeth: Mae'r Gronfa Ryngwladol er Lles Anifeiliaid (IFAW) yn ymgychu'n rhyngwladol i leihau'r ymelwa a'r masnachu mewn anifeiliaid, yn achub anifeiliaid sydd mewn trybini, ac yn diogelu cynefin anifeiliaid. Mae'r Bartneriaeth dros Weithredu yn Erbyn Troseddau Bywyd Gwyllt (PAW) yn dwyn at ei gilydd yr Heddlu, Tollau Tramor a Chartref EM (TTCh) a chynrychiolwyr adrannau'r Llywodraeth a chyrrff gwirfoddol sydd â diddordeb mewn gorfodi'r gyfraith mewn perthynas â bywyd gwyllt. Mae'n cefnogi'r rhwydweithiau o Swyddogion Cyswllt Bywyd Gwyllt yr Heddlu a Swyddogion Bywyd Gwyllt a Rhywogaethau Mewn Perygl TTCh, ac yn gwella'r ymwybyddiaeth o droseddau mewn perthynas â bywyd gwyllt ar angen am orfodi cadarn. Mae'r RSPCA, a Chanolfan Achub Bywyd Morol Cymru yn lleol, yn cymryd anifeiliaid i'w gofâl, sydd wedi eu hanafu, ac yn ymateb i alwadau a gwybodaeth gan aelodau'r cyhoedd. Mae PCC yn trwyddedu sefydliadau a ddsberthir yn 'swau'.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Sicrhau y gweithredir yr arferion gorau o fewn sefydliadau lles anifeiliaid, gan hyrwyddo cyfathrebu da a phartneriaethau gyda chyrrff cadwraeth natur, trwy gyfrwng Memorandwm Dealltwriaeth ar gadwraeth morloi ac ar ymyrryd er eu lles. Gwella'r ymwybyddiaeth o anghenion anifeiliaid gwyllt a'r potensial ar gyfer gweithredu er eu lles.

Galluoedd rheoli ACA cyfyngedig yr Awdurdodau Perthnasol: Er bod gofyniad cyfreithiol arnynt i reoli yACA Forol Sir Benfro ac i ddiogelu'r cynefinoedd a'r rhywogaethau y dewiswyd yr ACA ar eu cyfer, nid oes gan yr Awdurdodau Perthnasol ar gyfer y safle unrhyw bwerau ychwanegol ar gyfer ymgymryd â'r rheoli.

Materion i'w hystyried: Gallai diffyg bwerau deddfwriaethol

addas wanhaus unrhyw gamau rheoli a gynigir ar gyfer yr yACA, a hwyrach arwain at ddirywiad neu hyd yn oed golli rhywogaethau a chymunedau morol. (Gweler hefyd: Cyllid.)

Rheolaeth: Cyflawnir y rheoli cyfredol o fewn bwerau a dyletswyddau presennol Awdurdodau Perthnasol a Chymwys y safle, sydd, mewn perthynas â'r amgylchedd morol, yn aml yn absennol, neu'n wan neu'n anodd i'w gorfodi am resymau logistig (y rheswm yn aml yw'r gost, gan fod yr yACA'n fawr, yn gymhleth ac o'r golwg i raddau helaeth).

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Gwneud y gorau o'r bwerau rheoli presennol trwy ffurfio partneriaethau rheoli, cynlluniau a chodau ymddygiad gwirfoddol, a defnyddio'r bwerau i wneud is-ddeddfau. Ceisio neu annog newidiadau perthnasol yn y ddeddfwriaeth pan fo'n briodol. Cynyddu ymwybyddiaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn enwedig yn genedlaethol, o bwysigrwydd deddfwriaeth ddigonol i ddiogelu'r amgylchedd morol, ac o ddiffygion y sefyllfa bresennol. Llwyddodd y Mesur Cadwraeth Bywyd Gwyllt Morol arfaethedig (2002) i wella'r ymwybyddiaeth o'r broblem hon, o leiaf yn wleidyddol, ond nid yw'r broblem wedi ei datrys.

Ymwybyddiaeth a chanfyddiad dynol: Gwael iawn yn gyffredinol yw'r ymwybyddiaeth, yn genedlaethol ac yn lleol, o'r bywyd gwyllt morol, o werth economaidd amgylchedd morol iach, o'r hyn ydyw ACA a'i goblygiadau, ac o'r canlyniadau i unigolion sy'n byw gerllaw neu'n defnyddio ACA forol.

Materion i'w hystyried: Diffyg dealltwriaeth o'r modd y gall gweithgareddau dynol andwyo bywyd gwyllt morol, ac arwain at ddirywiad neu hyd yn oed golli rhywogaethau a chymunedau morol.

Rheolaeth: Mae amryw o gyrff anllywodraethol, gan gynnwys y Gymdeithas Gadwraeth Forol, Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd, yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a'r RSPB, yn gweithio i wella'r ymwybyddiaeth genedlaethol o fywyd gwyllt morol a'r materion sy'n codi, ac felly hefyd nifer o gyrff statudol. Yn lleol, mae gan Warchodfa Natur Ynys Sgomer ganolfan ddehongli. Mae gwefan yr ACA yn amcanu i ddarparu gwybodaeth gefndirol berthnasol, ac y mae swyddog yr ACA yn gweithio i ehangu'r rhwydweithiau cyswllt ac i wella'r ymwybyddiaeth o'r ACA.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Gweithio yn lleol i wella'r ymwybyddiaeth o'r bywyd gwyllt a'r ACA (gan ddefnyddio dulliau gwledol, megis fideo). Cael cyrrff lleol i roi blaenoriaeth uwch i addysg a materion morol.

Cyllid: Er bod gofyniad cyfreithiol arnynt i reoli yACA Forol Sir Benfro ac i ddiogelu'r cynefinoedd a'r rhywogaethau y dewiswyd yr yACA ar eu cyfer, ni roddir cymorth cyllidol ychwanegol i Awdurdodau Perthnasol y safle, yn benodol ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd honno.

Materion i'w hystyried: Gallai diffyg cyllid ar gyfer rheoli'r ACA yn briodol arwain at ddirywiad, neu hyd yn oed golli, rhywogaethau a chynefinoedd morol. (Gweler hefyd: Galluoedd rheoli ACA cyfyngedig yr Awdurdodau Perthnasol.)

Rheolaeth: **Llywodraeth y DU/NAW** (dyrannu cyllid i'r awdurdodau perthnasol). Trwy weithredu ar y cyd, mae Awdurdodau Perthnasol yACA Forol Sir Benfro wedi llwyddo i sicrhau cyllid cyfatebol digonol ar gyfer arian Amcan Un o'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd, i gyllido'r gwaith o ddatblygu cynllun rheoli, gan gynnwys penodiad swyddog ACA, tan 31 Mawrth 2004.

Opsiynau rheoli yn y dyfodol: Ceisio cymorth ariannol hirdymor i'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn fewnol o'r Awdurdodau Perthnasol eu hunain, a pharhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater o fewn NAW. Chwilio am gyfleoedd cyllido. Ceisio ateb hirdymor a fydd yn cynnwys rheolaeth yr ACA.



Materion i'w hystyried ar gyfer yr yACA Forol Sir Benfro - *Drafft ymgynghorol*